Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd

(2024-2039)

Prif Faterion, Gweledigaeth, Amcanion Strategol a'r Opsiynau Twf a Dosbarthiad Gofodol

DRAFT

DRAFFT

Cynnwys

1.0 Cefndir a Phwrpas 4
1.1 Y Cynllun Datblygu Lleol 4
1.2 Pwrpas y Ddogfen Yma 4
2.0 Y Cyd-destun Polisi 6
2.1 Cenedlaethol 6
2.2 Rhanbarthol 7
2.3 Lleol 9
3.0 Materion Allweddol 12
3.1 Sail y Materion Allweddol 12
3.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 12
3.3 Creu Lleoedd 14
3.4 Yr Egwyddorion Cynllunio Allweddol ac Egwyddorion Creu Lleoedd Cynaliadwy 15
3.5 Y Materion Allweddol 16
THEMA - POBLOGAETH, DEMOGRAFFEG A THAI 16
THEMA – LLES 22
THEMA - YR ECONOMI, CYFLOGAETH A SGILIAU 25
THEMA – YR AMGYLCHEDD 30
THEMA – TRAFNIDIAETH A HYGYRCHEDD 33
THEMA - LLEOLIAD 37
4.0 Gweledigaeth 39
5.0 Amcanion Strategol 40
5.1 Matrics Asesu 42
6.0 Opsiynau Twf 45
Darpariaeth Tai Hanesyddol 45
Cyflogaeth 45
Senarios arfaethedig 46
Yr Opsiynau Twf 47
6.1 Opsiwn Twf 1 – yn seiliedig ar brif rhagamcanion 2022 Llywodraeth Cymru 49
6.2 Opsiwn Twf 2 - yn seiliedig ar rhagamcanion uwch 2022 Llywodraeth Cymru 50
6.3 Opsiwn Twf 3 - Yn seiliedig ar rhagamcanion Poblogaeth Isel 2022 Llywodraeth Cymru 50
6.4 Opsiwn Twf 4 – Wedi'i arwain gan dai 5 mlynedd 50
6.5 Opsiwn Twf 5 – Wedi'i arwain gan Cyflogaeth 50
7.0 Opsiynau Dosbarthiad Gofodol 52
7.1 Opsiwn Dosbarthiad 1 - Parhau gyda strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd 52
7.2 Opsiwn DOS 2 - Dosbarthiad ar sail unedau wedi ei cwblhau ers 2011 52
7.3 Opsiwn DOS 3 - Ffocws ar Ardal Twf Rhanbarthol 53

DRAFT

7.4 Opsiwn DOS 4 - Dosbarthu ar sail Nifer o Dai yn ACLl Gwynedd fesul AFTLl 53

Atodiad 1: Rhestr o Aneddleoedd y CDLl ar y Cyd 55

Atodiad 2: Map Ardaloedd Marchnad Tai Lleol 56

DRAFT

1.0 Cefndir a Phwrpas

1.1 Y Cynllun Datblygu Lleol

1.1.1 Mae rhaid i phob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn unol â gofynion Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2015 a'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3, Mawrth 2020). Mae Cyngor Gwynedd yn paratoi CDLl newydd ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) Gwynedd (sef yr ardal o Wynedd a leolir tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri). Mae CDLl yn ddogfen statudol sy'n nodi sut y dylai ardal awdurdod lleol ddatblygu dros gyfnod o 15 mlynedd. Bydd y Cynllun yn cyfarch anghenion tai, cyflogaeth, cymdeithasol ac amgylcheddol trigolion ACLl Gwynedd am y cyfnod hyd at 2039.

1.1.2 Paratoir y CDLl newydd yn unol â Chytundeb Cyflawni'r Cyngor, sydd wedi'i gytuno â Llywodraeth Cymru; mae'r Cytundeb Cyflawni yn nodi'r amserlen ar gyfer paratoi'r CDLl, yn ogystal â'r dull o ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymwneud â'r gymuned.

1.1.3 Mae'r CDLl ar hyn o bryd wedi cyrraedd y Cam 'Cyfranogi Cyn-adneuo' lle mae'r pwyslais ar geisio barn pobl, a sicrhau consensws drwy gynnwys y gymuned a rhanddeiliaid eraill wrth drafod ystyriaethau strategol.

1.1.4 Yn ystod y camau cychwynnol hyn wrth baratoi CDLl, mae'n ofynnol dilyn trywydd clir **o'r Ystyriaethau dan sylw** i'r **Weledigaeth** i'r **Amcanion** i'r **Opsiynau Strategol** i'r **Hoff Strategaeth**, gan ystyried:

- Y prif ystyriaethau gofodol a'r ystyriaethau sy'n ymwneud â chynaliadwyedd y mae ardal y CDLl yn eu hwynebu.
- Gweledigaeth y gymuned ar gyfer dyfodol gofodol ardal y CDLl.
- Amcanion cynllunio defnydd tir a fydd yn help i wireddu'r weledigaeth hon.
- Opsiynau strategol ar gyfer cyflawni'r amcanion hyn – maint a dosbarthiad gofodol datblygiadau newydd.

1.1.5 Ar ôl ystyried a thrafod nifer o opsiynau a gyflwynwyd yn y papur yma bydd angen dewis Hoff Strategaeth y CDLl. Pwysleisir Bydd yr opsiynau hyn yn ymwneud â'r lefelau twf cyffredinol y gall yr Ardal fod yn dymuno darparu ar eu cyfer a dosbarthiad gofodol datblygiadau newydd, h.y. faint o ddatblygu ac ymhle?

1.1.6 Ni fydd dogfen y Hoff Strategaeth yn cynnwys dynodiadau tir, ac eithrio safleoedd strategol posibl a/neu safleoedd allweddol eraill, sydd, oherwydd eu maint cymharol, yn hollbwysig er mwyn gwireddu'r Hoff Strategaeth. Mi fydd yn cynnwys atodiad yn nodi pa polisïau o'r cynllun presennol sydd yn cael cadw, diwygio neu dileu. Ni fydd, fodd bynnag yn cynnwys polisïau cynllunio manwl ar gyfer rheoli datblygu, dim ond polisïau cyffredinol y mae eu hangen er mwyn rhoi'r strategaeth a ffafrir ar waith. Ystyrir dynodiadau ar gyfer safleoedd ar raddfa lai ac ystyrir polisïau manwl a'u cynnwys yn y **Cynllun Adneuo**, sef fersiwn ddrafft y Cynllun cyfan.

1.2 Pwrpas y Ddogfen Yma

1.2.1 Prif bwrpas yr ymgynghoriad yma yw:

- sicrhau ein bod wedi adnabod yr holl faterion, heriau a chyfleoedd allweddol sy'n wynebu ACLl Gwynedd (Rhan 4.0)
- cael adborth ar gyfer y weledigaeth drafft (Rhan 5.0)
- cael adborth ar yr amcanion strategol drafft (Rhan 6.0)
- cael adborth ar y opsiynau twf (Rhan 7.0)
- cael adborth ar yr dosbarthiad gofodol (Rhan 8.0)

1.2.2 **Ni wnaed unrhyw benderfyniadau hyd yn hyn gan mai dyma'r cam cyntaf yn y broses o ymgynghoriad cyhoeddus.** Pan fydd y broses ymgynghori hon wedi'i chwblhau, bydd y Cyngor yn paratoi adroddiad ymgynghori yn tynnu sylw at y sylwadau a dderbyniwyd.

DRAFT

DRAFFT

2.0 Y Cyd-destun Polisi

2.1 Cenedlaethol

Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040

2.1.1 Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040 yw'r fframwaith datblygu cenedlaethol i Gymru, sy'n gosod y cyfeiriad ar gyfer datblygu hyd at 2040. Mae'n gynllun datblygu gyda strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi fywiog, cyflawni datgarboneiddio a gwytnwch yn yr hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a lles ein cymunedau. Fel y fframwaith datblygu cenedlaethol, Cymru'r Dyfodol yw'r haen uchaf o fewn fframwaith y cynllun datblygu ac mae'n canolbwyntio ar atebion i faterion a heriau ar raddfa genedlaethol. Mae'r Cynllun Cenedlaethol yn ategu Polisi Cynllunio Cymru a'r Nodiadau Cyngor Technegol atodol. Felly, bydd y Cynllun Cenedlaethol yn effeithio ar siâp a chyfeiriad polisi cynllunio yn y dyfodol yng Nghymru, gan gynnwys Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS) a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLl).

2.1.2 Mae'r Cynllun Cenedlaethol yn nodi pedwar rhanbarth ar gyfer datblygu polisi yng Nghymru yn y dyfodol – Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru, De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru. Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS) yn cael eu paratoi ar gyfer y rhanbarthau hyn, a fydd yn dylanwadu ar gynnwys Cynlluniau Datblygu Lleol yn y dyfodol. Mae ardal Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) Gwynedd wedi'i lleoli o fewn rhanbarth Gogledd Cymru, sy'n cynnwys ACLl Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam, Ynys Môn ac ACLl Pharc Cenedlaethol Eryri.

2.1.3 Fel rhan o'i strategaeth ofodol, mae'r Cynllun Cenedlaethol yn nodi nifer o bolisïau cyffredinol a rhanbarthol penodol. Ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru, mae Cymru'r Dyfodol yn nodi Wrecsam a Glannau Dyfrdwy fel Ardal Twf Genedlaethol, sy'n cael ei ategu gan dair Ardal Twf Rhanbarthol. Mae'r rhain yn ardaloedd a fydd yn tyfu, yn datblygu ac yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus a masnachol ar raddfa ranbarthol. Mae Bangor a Chaernarfon wedi'u nodi fel ardaloedd Twf Rhanbarthol. Nid yw datblygu a thwf mewn trefi a phentrefi mewn ardaloedd gwledig wedi'i eithrio ond dylai fod ar raddfa briodol a chefnogi dyheadau ac anghenion lleol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar adolygiad o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, a fydd yn siapio datblygiad ledled y wlad hyd at 2050. O ganlyniad, efallai y bydd angen ystyried themâu sy'n dod i'r amlwg wrth baratoi'r Cynllun newydd.

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12)

2.1.4 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PPW) presennol Argraffiad 12 yn nodi ym mharagraff 4.2.6 y bydd " Bydd yr Amcanestyniadau Aelwydydd lefel awdurdod lleol diweddaraf i Gymru gan Lywodraeth Cymru, ochr yn ochr â'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (AFDLl) diweddaraf, a'r Cynllun Llesiant ar gyfer ardal y cynllun, yn rhan sylfaenol o'r sylfaen tystiolaeth ar gyfer y cynlluniau datblygu. Dylid ystyried y rhain ynghyd â thystiolaeth allweddol arall mewn perthynas â materion fel beth mae'r cynllun yn ceisio ei gyflawni, cysylltiadau rhwng tai a swyddi, yr angen am dai fforddiadwy, ystyriaethau'r Gymraeg, ac ymarferoldeb y cynllun er mwyn nodi strategaeth briodol ar gyfer darparu tai yn ardal y cynllun. Rhaid rhoi ystyriaeth briodol hefyd i'r ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ehangach mewn cynllun datblygu er mwyn sicrhau y caiff lleoedd cynaliadwy a chymunedau cydlynus eu creu.

2.1.5 Mae paragraff 4.2.7 yn ychwanegu bod "amcanestyniadau aelwydydd yn amcangyfrif nifer yr aelwydydd yn y dyfodol ac maent yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth a rhagdybiaethau yn ymwneud ag aelodau a nodweddion aelwydydd. Bydd elfennau penodol o'r amcanestyniadau, fel genedigaethau a marwolaethau, yn aros yn gymharol gyson gydol cyfnod y cynllun. Fodd bynnag, mae elfennau eraill, fel cyfraddau natur yr aelwyd a mudo, yn gallu dylanwadu ar ganlyniadau yn sylweddol. Mae angen i awdurdodau cynllunio asesu a yw

elfennau gwahanol yr amcanestyniadau yn briodol i'w hardal, ac os nad ydynt, dylent wneud gwaith modelu, ar sail tystiolaeth gadarn, i nodi dewisiadau amgen."

Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3)

2.1.6 Mae Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru (LlCD) Argraffiad 3 (2020) yn darparu canllawiau manwl ar sut i ddatblygu sylfaen dystiolaeth i gyfiawnhau lefel a dosbarthiad twf economaidd a thai. Mae'r LlCD yn cydnabod nad oes cydberthynas uniongyrchol rhwng swyddi a chartrefi bob amser, ond mae'n rhywbeth y "mae angen eu hystyried gyda'i gilydd wrth asesu lefelau twf a datblygu strategaeth gynaliadwy; y nod yw sicrhau cydbwysedd rhwng cartrefi a swyddi a thrwy hynny leihau'r angen i gymudo. Bydd y gweithlu sydd ar gael, sgiliau, lefelau ymfudo net, patrymau cymudo, darpariaeth tai a seilwaith yn dylanwadu'n gryf ar y twf economaidd sydd i'w gyflawni mewn cynllun" (5.25). Dylid ystyried cysylltiadau â'r cyd-destun rhanbarthol ac isranbarthol hefyd, gan ystyried cysylltiadau swyddogaethol a synergedd daearyddol rhwng lleoedd i gyflawni gwell canlyniadau Cynllunio (5.25).

2.1.7 Mae'r LlCD yn nodi y bydd angen tystiolaeth i ddangos sefyllfa gyfredol/sylfaenol y cynllun a bod "rhagolygon sy'n seiliedig ar dueddiadau yn meintioli amrywiaeth o ganlyniadau, yn seiliedig ar gyfres o dybiaethau, gan allosod lefel yr angen i gwmpasu cyfnod y cynllun cyfan. Dylai'r rhagolygon a ddefnyddir ymwneud yn uniongyrchol â'r amrywiaeth o faterion a dulliau defnydd tir y mae'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael â nhw, er enghraifft, newidiadau yn y boblogaeth a'r angen am gartrefi ychwanegol i ddarparu ar gyfer y newid hwn. Dylid defnyddio'r holl ffynonellau tystiolaeth, gan gynnwys Amcanestyniadau Aelwydydd diweddaraf Llywodraeth Cymru, wrth baratoi cynllun. (5.28) "

2.1.8 Mae'r Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd diweddaraf Llywodraeth Cymru wedi'u nodi fel rhan sylfaenol o sylfaen dystiolaeth y CDLl, ac mae'r LlCD yn nodi y dylid ystyried yr amcanestyniadau hyn, a'r niferoedd tai sy'n deillio o hynny, fel rhan o'r dystiolaeth a ddylai gynnwys dadansoddiad cryno o bob amcanestyniad amrywiolyn, a'r goblygiadau sydd gan hyn i dwf poblogaeth, aelwydydd a swyddi mewn ardal.

2.1.9 O ran y strategaeth ofodol, mae'r LlCD yn nodi bod rhaid i CDLl "gyfleu'n glir ble caiff gwaith datblygu'r dyfodol ei leoli, pam a sut bydd yn cyflawni'r weledigaeth, y materion a'r amcanion allweddol". Bydd angen i hyn gael ei lywio gan ddealltwriaeth gadarn o'r ardal a rôl a swyddogaeth lleoedd yn ogystal â dealltwriaeth o ffactorau cyflenwad a galw o fewn a thu hwnt i ffin yr awdurdod lleol.

2.2 Rhanbarthol

Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS)

2.2.1 Bydd CDS yn cael eu cynhyrchu ar gyfer y pedwar rhanbarth (Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru, De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru) sydd wedi'u nodi yn Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040. Byddant yn eistedd rhwng y Cynllun Cenedlaethol a'r Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) a byddant yn darparu cyd-destun strategol ar gyfer paratoi CDLl dilynol.

2.2.2 Mae Cynllun Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 yn nodi:

"Dylid gwneud penderfyniadau clir ynghylch maint a lleoliad twf drwy lunio Cynllun Datblygu Strategol er mwyn sicrhau bod pob rhan o'r rhanbarth yn cydweithio i gyflawni nodau'r rhanbarth. Dylai Cynllun Datblygu Strategol ganolbwyntio ar symudiadau pobl ar draws y rhanbarth a chefnogi dull integredig o gynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth yn strategol. Dylai penderfyniadau lleoli allweddol gan gynnwys rhai ar ganolfannau cyflogaeth, twf tai strategol a gwasanaethau ganolbwyntio ar y lleoliadau mwyaf cynaliadwy a hygyrch a cheisio mynd i'r afael â thagfeydd, lleihau lefelau cymudo yn y car a gwella ansawdd aer".

2.2.3 Ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru, mae'r cyfrifoldeb am baratoi'r CDS yn gorwedd gyda 'Uchelgais Gogledd Cymru'. Mae paratoi'r CDS wedi dechrau, gyda cham 'Cytundeb Cyflawni' yr CDS yn cael ei gwblhau ac mae gwaith bellach yn mynd rhagddo ar baratoi'r 'Sylfaen Dystiolaeth'.

Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) (2025 – 2030)

2.2.4 Mae'r CTRh yn ddogfen strategol sy'n amlinellu'r weledigaeth hirdymor ar gyfer trafnidiaeth y rhanbarth gan gynnwys y nodau, yr amcanion a'r polisïau a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella'r trafnidiaeth rhwydwaith a gwasanaethau.

2.2.5 Bydd yr CTRh hwn yn helpu i fynd i'r afael â materion trafnidiaeth lleol a rhanbarthol presennol ac yn y dyfodol nawr a dros y 5 mlynedd nesaf (2025-2030) trwy ddarparu fframwaith ar gyfer penderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol.

2.2.6 Mae'n nodi sut y gall trafnidiaeth gefnogi'r gwaith o ddarparu 'Llwybr Newydd', sef strategaeth trafnidiaeth Llywodraeth Cymru, a chyfrannu at lwyddiant, adfywio a datblygiad ein rhanbarth. Mae'r Cynllun hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall Gogledd Cymru gyfrannu at gyflawni strategaethau a blaenoriaethau cenedlaethol.

Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh)

2.2.7 Mae paratoi Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh) yn ofyniad o'r Nodyn Cyngor Technegol Agregau Mwynau (MTAN1) (2004). Mae'r DTRh yn nodi sut y byddai'r galw am agregau yn cael ei ddiwallu yn y rhanbarth am gyfnod o 15 mlynedd sy'n dod i ben yn 2021. Cyhoeddwyd yr Adolygiad Cyntaf o'r DTRh yn 2014 ac fe'i dilynwyd gan yr Ail Adolygiad ym mis Medi 2020. Mae'r Ail Adolygiad DTRh yn cwmpasu'r cyfnod o 25 mlynedd hyd at 2041, ond bydd adolygiadau pellach yn dal i gael eu cychwyn bob 5 mlynedd, yn unol â MTAN1, i sicrhau bod yr DTRh yn gallu ymateb i unrhyw newid sylweddol mewn amgylchiadau. Bydd hyn yn sicrhau y gellir mynd i'r afael ag unrhyw newidiadau mawr i'r cyflenwad a'r galw a newid neu addasu'r DTRh fel y bo'n briodol.

Fframwaith Economaidd Gogledd Cymru

2.2.8 Cyhoeddwyd hwn gan Lywodraeth Cymru yn 2021, ac mae'n un o bedwar Fframwaith Economaidd Rhanbarthol sy'n cwmpasu Cymru gyfan.

2.2.9 Ei genhadaeth yw:

"dechrau creu cyfleoedd arloesol i sicrhau ein bod yn diogelu ac yn gwella ein hamgylchedd naturiol gan ganiatáu hefyd i gymunedau ffynnu ar yr un pryd. Adeiladu ar ein cryfderau a manteisio ar gyfleoedd lle maent yn ychwanegu gwerth, y tu hwnt i werth ariannol yn unig, i'r rhanbarth."

2.2.10 Mae'n seiliedig ar egwyddorion economi Llesiant ac mae'n nodi 3 Blaenoriaeth; y rhain yw
1. Yr Economi Gymdeithasol a Llesiant Cymunedol
2. Economi Profiadau
3. Yr Economi Carbon Isel ac Allyriadau Isel

Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035

2.2.11 Paratowyd y Cynllun Strategol hwn gan Gyngor Gwynedd ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol mewn cydweithrediad â chymunedau, busnesau a rhanddeiliaid. Mae'r Cynllun hwn wedi'i ddatblygu i hyrwyddo Economi Ymwelwyr Gynaliadwy ar gyfer yr ardal ar gyfer y dyfodol. Ei weledigaeth ar gyfer y dyfodol yw:

" Economi Ymwelwyr er budd a llesiant Pobl, Amgylchedd, Iaith a Diwylliant Gwynedd ac Eryri.”"

2.2.12 Mae'r Cynllun yn nodi'r egwyddorion craidd ar gyfer yr economi ymwelwyr a fydd yn ei dro yn arwain at gyfres o gamau gweithredu. Mae'n cydnabod pwysigrwydd economi ymwelwyr i'r ardal arbennig hon ond mae'n anelu at sicrhau bod yr ardal a'i rinweddau arbennig yn cael eu gwarchod a'u diogelu - fel bod yr hyn sydd mor unigryw am yr ardal yn parhau i gael ei warchod heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

2.3 Lleol

Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd ar gyfer 2020/21 - 2026/27

2.3.1 Cymeradwywyd y Cynllun Gweithredu ym mis Rhagfyr 2020. Pwrpas y Cynllun Gweithredu yw amlinellu sut y bydd y Cyngor yn ceisio mynd i'r afael ag amcanion Strategaeth Tai Cyngor Gwynedd (2019 hyd at 2026/27).

- Mae dros 30 o gynlluniau wedi'u hamlinellu ar draws y sir a fydd yn galluogi'r Cyngor i hwyluso dros 500 o dai fforddiadwy newydd i'w gwerthu neu eu gosod i drigolion Gwynedd gan gynnwys adeiladu 100 o dai newydd;
- cynnig benthyciadau ar gyfer 250 o brynwyr tro cyntaf lleol;
- sicrhau dros 600 o unedau tai cymdeithasol newydd i Wynedd gan gynnwys prynu 72 o hen dai cymdeithasol er mwyn eu rhentu i bobl leol yn unol â pholisi dyrannu lleol newydd y Cyngor;
- ymestyn y system grantiau i ddod â 250 o gartrefi gwag yn ôl i ddefnydd ledled y sir;
- buddsoddi mewn cartrefi ecogyfeillgar;
- datblygu 150 o unedau byw ar gyfer pobl ddigartref yn y sir a chreu 130 o unedau newydd ar gyfer preswylwyr sy'n agored i niwed.

Ardal Ni: Cynlluniau Adfywio Lleol

2.3.2 Rhain yw cyfres o gynlluniau gweithredu ar gyfer ardaloedd o Wynedd. Y bwriad yw sicrhau bod camau rhagweithiol yn eu lle er mwyn sicrhau cydweithio i wella ardaloedd yn economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol ac yn ddiwylliannol.

2.3.3 Y weledigaeth yw datblygu a chefnogi cymunedau cynaliadwy sy’n iach, llewyrchus ac egnïol gyda’r hyder i fentro, a gyda’r awydd a’r gallu i gyfrannu eu hatebion eu hunain i anghenion lleol ac i fanteisio ar gyfleoedd newydd.

2.3.4 Yn rhan o’r fframwaith mae’r sir wedi ei rhannu yn 13 Ardal Adfywio Lleol gyda cynllun gweithredu wedi ei greu ar gyfer pob un o’r ardaloedd. Mae’r cynlluniau gweithredu yn adnabod prosiectau sy’n ymateb i flaenoriaethau lleol.

Cynllun Argyfwng yr Hinsawdd a Natur

2.3.5 Ar 8 Mawrth, 2022 mabwysiadodd Cabinet Cyngor Gwynedd Gynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur uchelgeisiol sy'n gosod nod i ddod yn awdurdod carbon sero net erbyn 2030. Mae'r Cynllun hwn yn dilyn penderfyniad y Cyngor Llawn i ddatgan argyfwng hinsawdd ac ymrwymiad y Cyngor i fuddsoddi £3 miliwn i gyflawni prosiectau amrywiol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy’n Sensitif i Faethynnau

2.3.6 Ym mis Mawrth 2025, diweddarodd Cyfoeth Naturiol Cymru eu hasesiad o ACA Afonydd Cymru i werthuso cydymffurfiaeth â thargedau ffosfforws. Pwysleisiodd yr asesiad effeithiau negyddol crynodiadau gormodol o

ffosffad ar rywogaethau ac ecosystemau dyfrol. Mae tair afon ACA yng Ngwynedd (Glaslyn, Gwyrfai, a Dyfrdwy). Ar hyn o bryd mae CNC yn monitro crynodiadau ffosffad yn yr afonydd hyn, ac mae'r canlyniadau wedi canfod bod crynodiadau ffosffad yng Ngwyrfai yn fwy na'r targedau ar hyn o bryd. Pan fydd targedau ffosffad yn cael eu rhagori o fewn afonydd ACA, efallai y bydd angen i ddatblygiadau arfaethedig o fewn dalgylchoedd yr afonydd ddangos niwtraliaeth maetholion. Bydd Cyngor Gwynedd yn parhau i fonitro canllawiau cyfredol CNC ynghylch cynigion cynllunio o fewn dalgylchoedd Afon ACA.

2.3.7 Wrth baratoi'r CDLl a phenderfynu ble bydd datblygiadau newydd yn cael eu lleoli, bydd angen ystyried y dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar lefelau maetholion yn nalgylchoedd yr afonydd, gofynion niwtraliaeth maetholion a chanllawiau diweddaraf CNC.

Strategaeth Rheoli Llifogydd Lleol, Cyngor Gwynedd

2.3.8 Mae'r angen i Awdurdodau Lleol baratoi Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol yn un o ofynion y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Mae gofyn i Gyngor Gwynedd adolygu y Strategaeth wreiddiol dyddiedig (2013) er mwyn cyd-fynd ag amcanion, mesurau a pholisïau a deddfwriaeth gysylltiedig y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru a gyhoeddwyd yn 2020.

2.3.9 Mae'r strategaeth yn cynnwys amcanion i leihau'r risg o lifogydd ac erydiad arfordirol, datblygu dealltwriaeth o'r peryglon hyn, a chydweithio â chyrff perthnasol. Mae hefyd yn pwysleisio'r angen i godi ymwybyddiaeth ac annog cydweithio ar gynlluniau lliniaru. Mae'r strategaeth yn rhedeg ochr yn ochr â Chynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur y Cyngor, gyda'r nod o greu cymunedau mwy diogel a mwy cynaliadwy yng Ngwynedd.

Strategaeth Economaidd Gwynedd - Economi Sy'n Gweithio i Bawb: Gwynedd 2035

2.3.10 Mabwysiadwyd y strategaeth gan Gabinet Cyngor Gwynedd ar 11 Mehefin 2024. Cymeradwywyd y Strategaeth gan Gyngor Gwynedd ym mis Mai 2026 ac mae'n nodi gweledigaeth a blaenoriaethau hirdymor ar gyfer economi Gwynedd, sef:

"Economi arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cryfhau'r Gymraeg, yn creu cyfleoedd newydd ac yn cyfrannu at lesiant pawb."

Themâu a blaenoriaethau arfaethedig y strategaeth yw:

Mentergarwch - mentrau lleol llewyrchus sy'n rhagori
1. Uchafu gwerth ein heconomi bresennol
2. Gwneud y mwyaf o gyfleoedd newydd

Pobl - gweithlu medrus a chynhwyso
3. Sicrhau gweithlu medrus
4. Cefnogi ein pobl

Lle - yr amodau gorau i ffynnu
5. Y cysylltedd a'r isadeiledd gorau posibl
6. Lle gwych i fyw, gweithio a mentro

2.3.11 Bydd y blaenoriaethau a amlinellir yn y strategaeth yn bwysig i'w hystyried wrth ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol newydd.

Asesiad Marchnad Tai Lleol

2.3.12 Mae Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (AMTLl) yn asesu anghenion tai presennol a'r dyfodol, y galw am dai, a fforddiadwyedd tai mewn ardal. Mae'n darparu sail dystiolaeth bwysig ar gyfer paratoi CDLl. Mae'r AMTLl yn cael ei baratoi yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

2.3.13 Mae'r AMTLl wrthi yn cael ei baratoi ar hyn o bryd, a phan fydd wedi'i gwblhau, bydd ei ganfyddiadau yn cael ei ystyried yn ofalus ochr yn ochr â thystiolaeth berthnasol arall wrth lunio'r Hoff Strategaeth

DRAFT

3.0 Materion Allweddol

3.1 Sail y Materion Allweddol

3.1.1 Yn greiddiol i'r gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd (CDLl) (2024–2039), mae angen ystyried y modd y gall y Cynllun hwyluso creu cymunedau a thwf cynaliadwy drwy ymateb yn gadarnhaol i'r prif faterion sydd yn berthnasol i'r ardal.

3.1.2 Fe seiliwyd y materion allweddol sydd yn wynebu Gwynedd yn ystod oes y Cynllun Datblygu Lleol a thu hwnt ar ystod o dystiolaeth, amcanion sydd yn deillio o gynlluniau, adroddiadau, rhaglenni a strategaethau perthnasol ynghyd a mewnbwn ar lafar sydd wedi deillio o ymarferion ymgysylltu penodol

3.1.3 Mae'r ffynonellau hyn yn cynnwys:

- Amcanion a chynnwys Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn 2023-28. Y tri prif amcan llesiant yw:
  - Gweithio gyda'n gilydd i liniaru effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau.
  - Gweithio gyda'n gilydd i wella lles a llwyddiant ein plant a phobl ifanc er mwyn gwireddu eu llawn botensial.
  - Gweithio gyda'n gilydd i gefnogi ein gwasanaethau a'n cymunedau i symud tuag at Sero Net Carbon.
- Amcanion a chynnwys Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28. Mae'r Cynllun yn cynnwys cyfres o brosiectau o dan saith maes blaenoriaeth:
  - Gwynedd Yfory - Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc.
  - Gwynedd Lewyrchus - Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng.
  - Gwynedd Glyd - Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau.
  - Gwynedd Ofalgar - Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau.
  - Gwynedd Gymraeg - Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.
  - Gwynedd Werdd - Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd.
  - Gwynedd Effeithlon - Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon.
- Y fframwaith bolisi, cyfreithiol a technegol presennol. Hyn yn cynnwys amcanion Polisi Cynllunio Cymru (polisi cenedlaethol sydd yn amlinellu'r canllawiau ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio) ynghyd a blaenoriaethau Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040, sef fframwaith datblygu cenedlaethol sydd yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer gwaith datblygu yng Nghymru hyd at 2040.
- Y materion allweddol oedd yn sail i Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn gan ystyried eu haddasrwydd cyfredol i ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd;
- Ystyriaeth o'r modd mae CDLl ar y Cyd Mabwysiedig Gwynedd ac Ynys Môn (2011-2026) wedi perfformio o'i gymharu â'i ddangosyddion monitro fel y'i dadansoddwyd yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y CDLl ar y Cyd (AMB 1-8) ac Adroddiad Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd i Wynedd a Môn (Mawrth 2022).
- Mewnbwn o weithdy gydag Aelodau'r Gweithgor Polisi Cynllunio.
- Cynhaliwyd ymgynghoriad canfod barn, oedd yn holi beth oedd y materion oedd yn bwysig i'r rhaid oedd yn byw a gweithio yn ardal y Cynllun. Cafodd yr ymatebion ystyriaeth llawn i sicrhau fod y materion allweddol yn cyfarch y materion a godwyd.

3.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

3.2.1 Yn greiddiol i gynnwys y Materion Allweddol sydd wedi eu hadnabod, a thrwy hynny'r Weledigaeth a'r Prif Amcanion a'i sefydlir, mae gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn

gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ddatblygu mewn ffordd gynaliadwy. Dyma sail Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn 2023-28. Cyflwynodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol saith nod llesiant ar gyfer rhoi ffurf ar waith holl gyrff cyhoeddus Cymru er mwyn cwrdd â'i amcanion. Mae'r rhain fel y ganlyn:

Nôd Llesiant	Disgrifiad o'r Nôd
Cymru Lewyrchus	Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.
Cymru Gydnerth	Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).
Cymru Iachach	Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).
Cymru o gymunedau cydlynus	Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
Cymru sydd ar lefel fyd-eang	Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

Ffigwr 1: Saith nod llesiant o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

DRAFT




3.3 Creu Lleoedd

3.3.1 Agwedd arall sy'n greiddiol i sefydlu amcanion clir a chadarn yw'r egwyddor o 'Greu Lleoedd'. Mae'n egwyddor pwysig sydd yn cael ei hybu ym Mholisi Cynllunio Cymru (rhifyn 12). Disgrifir hyn (Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 12, tud. 14) fel "Ffordd holistig o fynd ati i gynllunio a dylunio datblygiadau a lleoedd yw "creu lleoedd", sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau positif. Mae'n tynnu ar botensial ardal i greu datblygiadau a mannau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl yn eu hystyr ehangaf. Mae "creu lleoedd" yn ystyried y cyd-destun, y swyddogaeth a'r berthynas rhwng safle'r datblygiad a'i gyffiniau, hynny yn achos datblygiadau mawr sy'n creu lleoedd newydd yn ogystal â datblygiadau bach sy'n cael eu creu mewn lle ehangach".

3.3.2 Wrth ystyried y Materion Allweddol i gyfnod y CDLl, rhaid felly gadw mewn cof yr egwyddorion isod:

DRAFT

Ffigwr 2: Egwyddorion Creu Lleoedd



3.4 Yr Egwyddorion Cynllunio Allweddol ac Egwyddorion Creu Lleoedd Cynaliadwy

3.4.1 Yn dilyn ymlaen o ystyriaethau Creu Lleoedd, dylai'r materion allweddol hefyd roi ystyriaeth i egwyddorion Cynllunio Allweddol ac Egwyddorion Creu Lleoedd Cynaliadwy, fel y'u nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12).

Egwyddorion Cynllunio Allweddol

3.4.2 Dyma'r Egwyddorion Cynllunio Allweddol fel y'i nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12):

- Helpu'r economi i dyfu mewn ffordd gynaliadwy
- Gwneud y gorau o adnoddau
- Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach
- Creu a chynnal cymunedau
- Amddiffyn yr amgylchedd a chyfyngu ar yr effeithiau ar yr amgylchedd

3.4.3 Mae'r Egwyddorion Cynllunio Allweddol, fel y'i nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru, yn cynrychioli gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer pob Cynllun Datblygu. Mae'r rhain yn cefnogi'r newid diwylliannol ac o ran meddylfryd sydd ei angen i lwyr ystyried egwyddorion 'Creu Lleoedd'.

Egwyddorion Creu Lleoedd Cynaliadwy

3.4.4 Dyma'r Egwyddorion Creu Lleoedd Cynaliadwy fel y'i nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12):


- Creu a Chynnal Cymunedau
- Datblygu ein Heconomi mewn Dull Cynaliadwy
- Gwneud y Defnydd Gorau o Adnoddau
- Gwarchod yr Amgylchedd Cymaint â Phosibl a Chyfyngu ar Effaith Amgylcheddol
- Hwyluso Amgylcheddau Hygyrch ac Iach

3.4.5 Nodai Polisi Cynllunio Cymru (para. 2.15) y dylid defnyddio canlyniadau cenedlaethol creu lleoedd cynaliadwy i helpu i baratoi cynlluniau datblygu ac i asesu cynigion datblygu. Bydd y canlyniadau'n cynnig fframwaith sy'n cynnwys y ffactorau y bernir eu bod y canlyniadau gorau y gall cynlluniau datblygu a datblygiadau unigol esgor arnynt. Dylai'r canlyniadau hyn, tra'n amlygu nodweddion cynaliadwy'r cynlluniau datblygu a'r penderfyniadau y maent yn helpu i'w creu, fod yn fan cychwyn ar gyfer sawl sydd yn paratoi cynlluniau a rhai sydd yn gwneud penderfyniadau a dylid manteisio ar y cyfle cyntaf posib i'w hystyried

DRAFT

3.4.6 Mae manylion yr hyn sydd yn cael eu hymgorffori o fewn yr egwyddorion penodol wedi eu hamlygu yn y ffigwr isod:

Ffigwr 3: Egwyddorion Creu Lleoedd Cynaliadwy



3.5 Y Materion Allweddol

3.5.1 Ar sail y wybodaeth gefndirol uchod, mae 39 o Faterion Allweddol wedi eu llunio. Mae'r rhain, ynghyd â'r cyd-destun perthnasol ar eu cyfer, wedi eu nodi isod. Mae'r Materion Allweddol hyn wedi eu rhannu i 7 is-gategori penodol.

THEMA - POBLOGAETH, DEMOGRAFFEG A THAI

MA 1	**Poblogaeth sy'n heneiddio o ganlyniad i boblogrwydd rhannau o'r ardal fel cyrchfannau ymddeol**

Cyd-destun

Cyfrifiad 2021 yn dangos fod y boblogaeth 65+ yng Ngwynedd wedi cynyddu o **25,140** (sef **20.6%** o'r holl boblogaeth yn 2011) i **27,273** (sef **23.2%** o'r holl boblogaeth yn 2021). Yn 2021, 21.3% o boblogaeth Gymru gyfan oedd yn y categori oedran 65+.

Yng Nghyfrifiad 2011 y nifer oedd wedi eu cofnodi fel 'wedi ymddeol' yng Ngwynedd yn **14,561.** Erbyn cyfrifiad 2021 roedd y ffigwr hwn wedi cynyddu i **25,358.** Noder fodd bynnag bod Cyfrifiad 2011 yn ystyried poblogaeth 16-74 mlwydd oed yn unig, tra bod Cyfrifiad 2021 yn ystyried yr holl boblogaeth dros 16 mlwydd oed.

15.3% o boblogaeth Gwynedd (Cyfrifiad 2021) o dan 15 oed, o'i gymharu ag 16.5% drwy Gymru gyfan.

- Wrth i'r ieuenctid adael eu cymunedau, canlyniad hyn yw dadleoliad poblogaeth oddi mewn i Wynedd ynghyd a mudo i leoliadau tu allan i'r Sir.
- Diboblogi gwledig yn golygu colli sgiliau yn yr ardaloedd hyn a chael effaith ar wasanaethau lleol.
- Effaith ar deuluoedd o safbwynt edrych ar ôl y genhedlaeth hŷn.
- Colli poblogaeth sydd yn gallu siarad Cymraeg.

Mae poblogaeth sydd yn heneiddio yn arwain at fwy o ystyriaethau o ran cynnal gwasanaethau a sicrhau cefnogaeth i'r to hŷn. Mae adroddiad Llechen Lân gan Gyngor Gwynedd (Hydref 2024 ynghyd a diweddariad data 2026), er enghraifft, yn ystyried yr heriau demograffeg bresennol a'r rhagamcanion dros y ddau ddegawd nesaf, ac effeithiau posib hynny ar y galw am ofal, a'r gallu i ddiwallu'r angen hwnnw.

MA 2	**Effaith llety gwyliau hunan arlwyo /ail gartrefi ar yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig a'r farchnad dai.**

Cyd-destun

- Eiddo yn cael eu colli o'r farchnad dai, arwain at fwy o gystadleuaeth yn y farchnad dai gan brisio'r boblogaeth leol allan o'r farchnad.
- Swyddi incwm isel a dros dro sydd yn ymwneud â'r diwydiant twristiaeth.
- Llai o boblogaeth parhaol i gynnal a chefnogi gwasanaethau lleol.
- Effaith o ran gallu ieithyddol.

Newid Deddfwriaethol gan Lywodraeth Cymru sydd wedi cyflwyno dosbarthiadau defnydd newydd C3, C5 a C6 ynghyd a'r hawl i gyflwyno Erthygl 4 yn amlygu'r ffaith fod hyn yn dal i effeithio rhai rhannau penodol yng Nghymru.

Yn y cyfnod Gorffennaf 2018 i Hydref 2026 mae'r niferoedd o ail gartrefi yng Ngwynedd wedi gostwng -9% gyda'r nifer o lety gwyliau hunan arlwyo wedi cynyddu +178%. (Gwybodaeth Treth y Cyngor).
Nifer o fecanweithiau rheoli yn cael ei roi ar waith er mwyn ceisio ymateb i'r heriau a ddaw ar draul cael nifer uchel o ail gartrefi a llety gwyliau.

MA 3	**Angen darparu ar gyfer anghenion myfyrwyr petai prinder llety yn cael ei amlygu**

Cyd-destun

- Oddeutu 10,000 o fyfyrwyr ym Mangor sydd yn cael effaith sylweddol ar economi ac agweddau cymdeithasol yn y ddinas ac yn ehangach.
- Nifer myfyrwyr yn y Prifysgol wedi cynyddu o **9,312** yn 2010/11 i **9,875** yn 2024/25.

- Angen sicrhau llety addas, yn enwedig pe bai prinder llety i fyfyrwyr yn cael ei amlygu.
- Tai mewn amlfeddiannaeth ac ystyriaethau o'u cylch yn fater pwysig, yn enwedig ym Mangor.
- Mae'r Brifysgol efo llety ar gyfer 2,145 o fyfyrwyr.
- Mae yna ganiatâd wedi cael ei roi ar gyfer llety pwrpasol ar gyfer 864 o fyfyrwyr ers 2011.

Nifer o Dai Amlfeddiannaeth (HMOs) ar gofrestr y Cyngor wedi gostwng o **910** yn 2019 i **738** yn 2026. O'r cyfanswm yn 2026 roedd 651 o'r rhain (88.2%) wedi ei lleoli yn Ninas Bangor sydd yn adlewyrchu effaith y Brifysgol ym Mangor.

MA 4	Colli preswylwyr ifanc sy'n economaidd weithgar i ardaloedd tu allan i Wynedd

Cyd-destun

- Ystyried goblygiadau colli preswylwyr ifanc i du allan i Wynedd.
- Sgiliau sydd wedi eu meithrin yng Ngwynedd yn cael ei golli. Y budd economaidd sy'n deillio o hyn yn cael ei fethu, gyda'r budd yn cael ei brofi mewn ardaloedd eraill.
- Diffyg poblogaeth i gynnal cymunedau a'r iaith Gymraeg. Cyfuniad o breswylwyr ifanc yn symud allan ar y cyd a chynnydd yn y boblogaeth sydd yn heneiddio (gweler MA 1) yn cael effaith ddilynol ar ddichonoldeb gwasanaethau lleol megis ysgolion cynradd. Cyfradd is o blant a phobl ifanc hefyd yn gallu cael effaith ar fywiogrwydd ardal.

Mae'r tabl isod yn cymharu poblogaeth fesul grŵp oedran yng Ngwynedd rhwng Cyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2021. Fe nodir yn glir y lleihad amlwg ym mhoblogaeth a chanran y boblogaeth mewn rhai o'r grwpiau oedran penodol sydd yn blant neu a ellir eu hystyried i fod yn breswylwyr ifanc sy'n economaidd weithgar.

Grŵp Oedran	2011	2021	+/- %
3 – 15 oed	16,866 (13.8% o'r boblogaeth)	16,339 (13.9% o'r boblogaeth)	-7.3%
16 – 24 oed	16,723 (13.7% o'r boblogaeth)	14,260 (12.1% o'r boblogaeth)	-14.7%
25 – 34 oed	12,532 (10.3% o'r boblogaeth)	13,127 (11.2% o'r boblogaeth)	+4.7%
35 – 49 oed	22,808 (18.7% o'r boblogaeth)	18,659 (15.9% o'r boblogaeth)	-18.2%

Fel enghraifft, noder y nifer o siaradwyr Cymraeg fesul grwpiau oedran (plant a phreswylwyr ifanc sydd yn economaidd weithgar) rhwng Cyfrifiad 2011 a 2021. Tra bod y canrannau ar sail nifer y boblogaeth wedi cynyddu yn nifer o'r enghreifftiau, gweler lleihad sylweddol yn y gwir nifer o siaradwyr Cymraeg fesul grwpiau oedran.

Grŵp Oedran	2011	2021	+/-
3 – 15 oed	15,035 (89.1% o'r grŵp oedran)	14,078 (86.2% o'r grŵp oedran)	-957
16 – 24 oed	9,805 (58.6% o'r grŵp oedran)	8,588 (60.2% o'r grŵp oedran)	-1217
25 – 34 oed	8,632 (68.9% o'r grŵp oedran)	9,076 (69.1% o'r grŵp oedran)	+444
35 – 49 oed	15,208 (66.7% o'r grŵp oedran)	12,481 (66.9% o'r grŵp oedran)	-2727

Mae'n debyg bod cyflogau uwch mewn lleoliadau eraill yn ffurfio peth o'r rheswm dros golli preswylwyr ifanc i leoliadau y tu allan i Wynedd. Mae Arolwg gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2025 wedi nodi bod canolrif cyflog wythnosol gros gweithwyr llawn amser yng Ngwynedd yn £669.20. Mae hyn yn arwyddocaol is na'r ffigwr i Gymru gyfan (£719.30) neu i Brydain Fawr (£766.60).

MA 5	**Colli preswylwyr ifanc sy'n economaidd weithgar o fannau gwledig i leoliadau eraill oddi mewn i'r Sir**

Cyd-destun

- Ystyried goblygiadau colli preswylwyr ifanc rhwng ardaloedd oddi mewn i'r Sir (e.e. o ardaloedd gwledig i fannau trefol)
- Trafnidiaeth yn broblem o safbwynt cadw pobl yng nghefn gwlad.
- Gweler isod fod pob ardal dalgylch wedi gweld colled mewn poblogaeth yn y cyfnod rhwng 2011 a 2021 ar wahân i ardal Dalgylch Bala/Penllyn a Caernarfon. Noder bod lleihad amlwg yn rhai o'r ardaloedd mwyaf gwledig e.e. Pen Llŷn (gwybodaeth Cyfrifiad 2011 a 2021).

Ardal	Poblogaeth 2011	Poblogaeth 2021	+/- %
Ardal Pen Llŷn	8,524	7,796	-8.5%
Ardal Porthmadog / Penrhyndeudraeth	10,323	9,759	-5.5%
Bro Ardudwy	7,157	6,331	-11.5%
Bro Dysynni	7,514	6,946	-7.6%
Bro Ffestiniog	6,479	6,077	-6.2%
Bro Lleu / Nantlle	9,665	9,659	-0.1%
Bro Ogwen	8,351	8,313	-1.7%
Bro Peris	11,685	11,374	-2.7%
Ardal Bala / Penllyn	4,362	4,422	1.4%
Dalgylch Bangor	21,092	20.486	-2.9%
Dalgylch Caernarfon	10,777	11,082	2.8%
Dalgylch Dolgellau	5,477	5,234	-4.4%
Dalgylch Pwllheli	10,468	9,994	-4.5%
Gwynedd	**121,874**	**117,393**	**-3.7%**

- Yn 2023 fe noder bod 58.5% o aelwydydd Gwynedd wedi eu prisio allan o'r farchnad h.y. incwm aelwyd wedi ei luosi gyda 3.5 yn annigonol i gyrraedd pris gwerthu chwartel isaf. Noder fod hyn mor uchel â 95.6% yn ward Pendraw Llŷn a 91.8% yn ward Abersoch gyda Llanengan.
- Prisiau tai yn yr ardal wledig allan o gyrraedd felly i bobl ifanc. Yn gyson â MA4, sgil effaith ar gymunedau gwledig, gyda chymunedau yn llai hyfyw i weithredu yn effeithiol.
- Hyn yn cael effaith o safbwynt colli y gwerth economaidd sydd yn deillio o'r cnewyllyn o breswylwyr ifanc sydd yn economaidd weithgar. Cylch dieflig wrth i ddiffyg cyfleoedd gwaith addas, cyflogau is, ar y cyd â phrisiau tai uchel olygu fod pobl ifanc yn edrych i symud i ffwrdd o ardaloedd gwledig.

MA 6	**Cyflenwad annigonol o rhai mathau o dai ac ymateb i'r angen am ystod well o dai o ran lleoliad, math, maint, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd i bobl leol**

Cyd-destun

- Mae'r tabl isod yn amlygu'r gwahaniaeth rhwng y canran o wahanol fathau o dai yng Ngwynedd o'i gymharu efo Cymru. Ceir canran mwy o dai Ar-wahân a thai Teras yng Ngwynedd o'i gymharu â Chymru (Gwybodaeth Cyfrifiad 2021).

Math o Dai	Gwynedd	Cymru
Ar-wahân	34.7%	28.5%
Tŷ Pâr	25.4%	32.1%
Teras	29.9%	26.6%

- Mae'r tabl canlynol yn nodi'r canran o unedau efo gwahanol nifer o ystafelloedd gwely yng Ngwynedd a Chymru. Fel y gwelir, mae caran llai o unedau 1 a 3 ystafell wely yng Ngwynedd o'i gymharu â Chymru gyfan.

Nifer o Ystafelloedd Gwely	Gwynedd	Cymru
1 ystafell wely	6.2%	7.6%
2 ystafell wely	25%	23.8%
3 ystafell wely	46.6%	48%
4 neu fwy ystafell wely	22.2%	20.6%

- Pris canolrif eiddo yng Ngwynedd yn 2025 oedd £190,000 ac ar sail hyn a lefelau incwm 2025 yng Ngwynedd amcangyfrifir bod 51.7% o aelwydydd wedi eu prisio allan o'r farchnad (Y Gofrestrfa Tir).
- Yn Hydref 2026 roedd yna 2,233 o aelwydydd ar Gofrestr y Cyngor ar gyfer unedau Rent Cymdeithasol.
- Mae 43.2% o aelwydydd Gwynedd efo 2 neu fwy o ystafelloedd gwely na'r hyn y maent ei angen. Mae hyn yn cymharu efo 41.7% trwy Gymru gyfan (Cyfrifiad 2021).
- Yn gysylltiedig gyda hyn, mae gwybodaeth o'r tair Cyfrifiad diwethaf yn nodi bod maint cyfartalog aelwydydd Gwynedd wedi lleihau yn gyson ers 2001. Dangosir hyn y tabl isod.

Dyddiad Cyfrifiad	Maint cyfartalog aelwydydd Gwynedd
2001	**2.31**
2011	**2.25**
2021	**2.22**

MA 7	Ymateb i anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr

Cyd-destun

Asesiad o Anghenion Llety a Sipsiwn a Theithwyr 2022 wedi adnabod angen ar gyfer 7 llain breswyl erbyn 2025 a 4 yn ychwanegol erbyn 2036, ynghyd a safle Tramwy (Transit) ar gyfer 4 carafán.

MA 8	**Mae llawer o'r tai presennol yn cael eu hystyried i fod yn rhy hen ac o ddyluniad gwael, o ran eu perfformiad a'u cynaliadwyedd, i fodloni anghenion modern**

Cyd-destun

- Ar y cyfan, noder bod llawer o stoc tai Gwynedd yn cael ei ystyried i fod yn hen. Mae Proffil Stoc Dai Mawrth 2024 gan Datadaptive yn nodi fod 44.08% o stoc dai Gwynedd wedi ei adeiladu cyn 1900 o'i gymharu â chyfartaledd o 22.57% trwy Gymru gyfan.
- Hyn yn golygu nad yw'r tai hyn mor effeithlon o ran pa mor gynaliadwy ydynt a all arwain at broblemau o safbwynt tlodi tanwydd
- Isadeiledd weithiau angen ei wella hefyd e.e. o ran carthffosiaeth.
- O safbwynt Tystysgrifau Perfformiad Ynni (EPC) sydd wedi eu dilysu yn y cyfnod 2014-24, noder bod 34.1% o dai Gwynedd yn perthyn i Raddfa D, sef y Raddfa Gyfartalog. Mae 25.5% o dai o fewn categorïau A i C (mwyaf ynni effeithlon) gyda 40.4% o eiddo yn perthyn i raddfeydd EPC E i G, sef y categorïau isaf o ran effeithlonrwydd ynni tai (Swyddfa Ystadegau Gwladol). Mae gan hyn sgil effaith o ran costau ynni ac ystyriaethau o ran tlodi tanwydd (gweler MA 13).
- Mae'r Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025 (MALC) gan Lywodraeth Cymru, sef y mynegai swyddogol ar gyfer mesur amddifadedd mewn is-ardaloedd o Gymru, yn nodi bod 38% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yng Ngwynedd yn y 10% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran amddifadedd tai gyda 26.7% o LSOAs Gwynedd yn y 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran yr ystyriaeth hon. Mae'r ystyriaethau perthnasol yma yn cyfeirio at dai annigonol, eu cyflwr ffisegol, amodau byw (addasrwydd y tai ar gyfer y sawl sy'n byw ynddynt) ynghyd a'u hargaeledd.

MA 9	**Capasiti aneddleoedd i ymdopi â thai ychwanegol**

Cyd-destun

"Er mwyn gallu sicrhau cynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, mae darparu seilwaith digonol ac effeithlon, gan gynnwys gwasanaethau fel addysg ac iechyd ynghyd â thrafnidiaeth, cyflenwad dŵr, carthffosydd, rheolaeth gynaliadwy ar wastraff, trydan a nwy (y defnyddolion) a thelathrebu, yn hanfodol" (para 3.61 o Bolisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 12, Chwefror 2024).

Tra'i fod yn bwysig sicrhau twf tai addas i gwrdd â anghenion cydnabyddedig yng nghymunedau Gwynedd, mae'n rhaid ystyried addasrwydd aneddleoedd i ddarparu'r twf hwn yn y modd mwyaf perthnasol. Mae hyn yn cynnwys yn y lle cyntaf gallu'r anheddle penodol i allu cwrdd yn gynaliadwy a thwf ychwanegol o safbwynt y math o nifer o gyfleusterau a gwasanaethau sydd yno, gan gynnwys mynediad at drafnidiaeth cyhoeddus effeithlon. Ochr-yn-ochr â hyn mae ystyriaethau perthnasol ynglŷn â gallu ffisegol aneddleoedd i allu derbyn tai ar y raddfa ddisgwyliedig ac i gyfrannu tuag at dwf addas. Yn hyn o beth mae cyfyngiadau ffisegol amlwg yn rhai o brif Ganolfannau Gwynedd ble mae'r dwysedd uchaf o wasanaethau a cyfleusterau perthnasol o safbwynt topograffi, tir sydd yn agored i lifogi a dynodiadau amgylcheddol. Bydd ystyriaeth o Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 'Datblygu llifogydd ac erydu arfordirol' gan Lywodraeth Cymru, sydd ar y gweill, yn fodd o asesu addasrwydd aneddleoedd ar gyfer darparu tai ychwanegol.

MA 10	**Rhesymoli a chanoli cyfleusterau addysg ac iechyd**

Cyd-destun

Angen ystyried effaith y newid yn y ddemograffeg h.y. gostyngiad yn niferoedd plant a phobl ifanc yng Ngwynedd (gweler gwybodaeth yn MA 4) a'r gostyngiad tebygol yn y nifer o enedigaethau (925 genedigaeth yng Ngwynedd yn 2025, sydd lawr o 1229 genedigaeth yn 2013 - Swyddfa Ystadegau Gwladol).

Dros oes y Cynllun presennol mae yna leihad wedi bod yn y nifer o feddygfeydd sydd yng Ngwynedd. Noder hefyd bod lleihad wedi bod yn y nifer o ysgolion yng Ngwynedd ers 2011, er noder fod elfen o hyn yn ymwneud ag ymdrechion ail-strwythuro addysg yn y Sir e.e. agor ysgolion ardal. Rhwng 2011-26, mae 31 ysgol wedi cau drwy Wynedd gyfan gyda pedwar ysgol newydd wedi eu hagor yn ystod y cyfnod hwn.

Ystyried ardaloedd twf posib a chyd-gynllunio'r cyfleusterau/gwasanaethau o safbwynt, gwaith, iaith, economi ac addysg (yng nghyd-destun capasiti ac addasrwydd) er sicrhau ffyniant ardaloedd.

THEMA – LLES

MA 11	**Hyrwyddo cyfleoedd i bobl gael byw'n iach a chael mynediad rhesymol at ofal iechyd, yn enwedig i bobl anabl a'r boblogaeth sy'n heneiddio**

Cyd-destun

"Dylai awdurdodau cynllunio ddatblygu a chynnal lleoedd sy'n cefnogi ffyrdd iach ac actif o fyw ar draws pob grŵp oedran a grŵp economaidd-gymdeithasol, gan gydnabod y gall buddsoddi mewn seilwaith cerdded a beicio fod yn fesur effeithiol sy'n lleihau'r pwysau ariannol ar y gwasanaethau cyhoeddus yn yr hirdymor... ...Lleihau effeithiau llygredd aer a sŵn." (para 3.22 Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 12, Chwefror 2024)

Fel noder yn y cyd-destun i Fater Allweddol MA 1, mae poblogaeth Gwynedd yn heneiddio. Un o sgil effeithiau hyn yw pwysau ychwanegol ar wasanaethau iechyd y Sir. Er mwyn ymdrin â hyn, mae angen sicrhau bod datblygiadau newydd nid yn unig â chysylltiad da gyda gwasanaethau gofal iechyd (gweler MA 10) ond hefyd yn darparu cyfleon i fyw yn iach e.e. hygyrchedd at lecynnau agored, canolfannau hamdden, cyfleon i gerdded a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn hytrach na modur preifat. Mae hyn yn berthnasol i bob grwp oedran ac nid yn unig i bobl hŷn. Mae hyn yn bwysig o ran iechyd meddwl ynghyd a iechyd corfforol.

Nodai Cyfrifiad 2021 bod 51.5% o boblogaeth Gwynedd yn ystyried eu hiechyd i fod yn dda iawn; 31.2% yn dda; 12.4% yn weddol; 3.7% yn wael a 1% yn wael iawn.

Noder hefyd ei fod yn bwysig sicrhau fod anghenion gydol oes pobl anabl o fewn y Sir, o bob grŵp oedran, yn cael ei gyfarch. Mae gwybodaeth o Gyfrifiad 2021 yn nodi bod 18% o boblogaeth Gwynedd wedi eu diffinio fel eu bod yn anabl yn unol â'r Ddeddf Gydraddoldeb 2010. Mae 7.7% o'r boblogaeth wedi nodi bod eu gweithgareddau dydd i ddydd wedi eu cyfyngu yn sylweddol, tra bod 10.3% wedi nodi eu bod wedi eu cyfyngu ychydig.

Mae'r tabl isod o Gyfrifiad 2021 yn amlygu'r ffaith ei fod yn bwysig bod y Cynllun yn hwyluso ac yn hyrwyddo gwasanaethau a cyfleusterau perthnasol i bobl anabl o bob oedran.

Oedran	Canran sydd wedi eu diffinio fel anabl yn unol â'r Ddeddf Gydraddoldeb 2010 - Gwynedd	Canran sydd wedi eu diffinio fel anabl yn unol â'r Ddeddf Gydraddoldeb – Cymru

9 mlwydd oed ac yn iau	4.0%	4.9%
10-14 mlwydd oed	6.8%	9.2%
15-24 mlwydd oed	12.9%	14.0%
25-34 mlwydd oed	12.2%	15.1%
35-39 mlwydd oed	13.5%	16.0%
40-44 mlwydd oed	13.8%	17.4%
45-49 mlwydd oed	17.1%	20.0%
50-54 mlwydd oed	18.5%	22.3%
55-64 mlwydd oed	21.8%	27.1%
65-74 mlwydd oed	28.2%	32.5%
75 – 84 mlwydd oed	37.8%	42.3%
85 mlwydd oed ac yn hŷn	53.8%	57.1%

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 (Malc gan Lywodraeth Cymru yn nodi bod 29.6% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yng Ngwynedd yn y 10% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran mynediad at wasanaethau, gyda 46.5% o LSOAs Gwynedd yn y 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran yr ystyriaeth hon. Nodir fod y maes hwn yn cyfeirio at amddifadedd sydd yn gysylltiedig â phobl methu cael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau sy'n cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer byw o ddydd i ddydd, yn gorfforol ac ar-lein ac mae'n cynnwys cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i feddygfeydd meddygon teulu, fferyllfeydd a chyfleusterau chwaraeon.

Bydd angen ystyried darparu tai a chefnogaeth addas yn lleol i bobl anabl gan sicrhau cyfleon addysg, hyfforddiant a datblygu sgiliau i'w cefnogi i mewn i gwaith cyflogedig.

MA 12	**Ardaloedd gyda lefelau uchel o wahanol fathau o amddifadedd**

Cyd-destun

Mae'r Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 (MALlC) yn ystyried amddifadedd o safbwynt problemau ehangach a achosir gan brinder adnoddau a chyfleoedd. Mae MALlC yn cynnwys wyth gwahanol fath ar amddifadedd, fel a ganlyn:

- incwm
- tai
- cyflogaeth
- mynediad at wasanaethau
- addysg
- iechyd
- diogelwch cymunedol
- yr amgylchedd ffisegol

Allan o'r 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran Amddifadedd Lluosog Cyffredinol yng Nghymru roedd tair ohonynt yng Ngwynedd yn 2025. Y tair ardal yw Peblig, Caernarfon, De Marchog a Gogledd Marchog, Bangor. Mae hyn i fyny o dau ardal yn 2019.

Mae lefelau amddifadedd yn amrywio rhwng y gwahanol gategorïau. Yn gyffredinol mae'r amddifadedd mwyaf amlwg yng Ngwynedd yn ymwneud gydag 'mynediad at wasanaethau' a 'thai'.

MA 13	Aelwydydd mewn tlodi tanwydd ble nad yw'n bosib cadw cartrefi yn gynnes am gost rhesymol.

Cyd-destun

Gwybodaeth o Gyfrifiad 2021 yn datgan bod Gwynedd sydd â'r gyfran uchaf o gartrefi heb wres canolog yng Nghymru (3.23%). Y ffigwr hwn mor uchel â 11% yn rhannau o'r Sir (Aberdaron).

Yn 2024 noder bod 49% o'r stoc tai yng Ngwynedd ddim ar y rhwydwaith nwy (Department for Energy Security and Net Zero, Llywodraeth y D.U.). Diffyg opsiynau felly ar gyfer cynhesu tai gan olygu bod rhaid defnyddio dulliau drytach o wneud hyn.

Mae cysylltiad agos hefyd gydag oed y stoc tai yng Ngwynedd (gweler MA 8) a'r ffaith bod hyn yn golygu nad yw'r tai hyn mor effeithlon o safbwynt cynnal gwres, gan olygu ei fod yn ddrytach felly i gynhesu'r tai.

Gwynedd yw'r seithfed awdurdod lleol gwaethaf yn y Deyrnas Unedig o safbwynt y canran o eiddo sydd â graddfa Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) EPC C+ (sef yr eiddo mwyaf ynni effeithlon) ar draws holl awdurdodau lleol y DU, gydag ond 39% o eiddo'r Sir yn y categori hwn (Gwybodaeth ail chwarter 2024 - Ministry of Housing, Communities & Local Government, Llywodraeth y D.U.)

MA 14	Angen cynnal neu wella teimlad y trigolion o fod yn ddiogel yn eu cartrefi neu y tu allan

Cyd-destun

Para 3.11 Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 12, Chwefror 2024:

"Mae awdurdodau lleol o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ystyried yr angen i atal a lleihau trosedd ac anhrefn ym mhob penderfyniad a wnânt. Mae atal trosedd ac ofn troseddau yn ystyriaethau cymdeithasol y dylid rhoi sylw iddynt wrth baratoi cynlluniau datblygu a gwneud penderfyniadau cynllunio. Y nod fyddai creu amgylcheddau diogel nad ydynt yn tanseilio ansawdd y dyluniad yn unol â'r nod llesiant ynghylch cymunedau cydlynus."

Heddlu Gogledd Cymru wedi cofnodi 8,520 trosedd yng Ngwynedd yn 2025. Mae hyn yn ostyngiad ffigwr 2023.

Pwysig sicrhau diogelwch defnyddwyr a phreswylwyr o fewn datblygiadau ynghyd â'r ymdeimlad o hyn. Hyn a buddiannau cymdeithasol arwyddocaol gan arwain at hwb mewn agweddau eraill, megis yn economaidd.

Mae'r Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 (Malc) yn nodi bod 7% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yng Ngwynedd o fewn y 10% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran yr ystyriaeth diogelwch cymunedol, gyda 14.1% o LSOAs Gwynedd yn y 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran yr ystyriaeth hon. Mae hyn yn ystyried amddifadedd sy'n ymwneud â byw mewn cymuned ddiogel. Mae'n cwmpasu profiadau gwirioneddol o droseddu a thân, yn ogystal â chanfyddiadau pobl o ddiogelwch pan fyddant allan yn yr ardal leol. Awgrymir felly fod yna ardaloedd penodol yng Ngwynedd ble mae hyn yn fater hollbwysig.

MA 15	**Mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, cyfleusterau hamdden ac adloniant ffurfiol ac anffurfiol, yn ogystal ag at gefn gwlad**

Cyd-destun

Natur wledig yr ardal yn golygu fod rhai ardaloedd yn parhau i wynebu heriau o ran mynediad i gyfleusterau. Fel yr amlygir gyda MA 11, mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 (Malc) yn nodi bod 29.6% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yng Ngwynedd yn y 10% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran mynediad at wasanaethau a bron i hanner LSOAs Gwynedd yn y 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran yr ystyriaeth hon.

Yn ganolog i hyn mae materion o ran sicrhau hygyrchedd rhwydd, yn enwedig drwy ffyrdd ar wahân i gerbydau preifat, i'r canolfannau ble mae'r mwyafrif y cyfleusterau a'r gwasanaethau wedi eu lleoli. Yn ogystal, hyd yn oed mewn Sir wledig fel Gwynedd mae mynediad i gefn gwlad a'r buddiannau ddaw o hynny yn anodd iawn os nad oes gan rywun y defnydd o gerbyd preifat. Mae cyswllt amlwg yma felly gydag ystyriaethau o ran cynyddu hygyrchedd a'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus a hefyd o ran cynyddu buddiannau cymdeithasol ac iechyd y boblogaeth.

THEMA - YR ECONOMI, CYFLOGAETH A SGILIAU

MA 16	**Creu cymunedau gwydn, ffyniannus a chynaliadwy drwy hyrwyddo datblygiadau sydd yn sicrhau budd i gymunedau lleol**

Cyd-destun

Mae creu cymunedau gwydn a ffyniannus yn gwbl hanfodol o safbwynt cymdeithasol ac economaidd. Er mwyn sicrhau llewyrch cymunedau ystyrir fod angen creu rhwydweithiau cymdeithasol cryf, sicrhau mynediad at addysg a hyfforddiant a sicrhau fod yna cyfleoedd i bawb gael mynediad i wasanaethau.

Wrth wraidd datblygiadau fe ddylai'r budd cyffredinol a ddaw i drigolion Wynedd fod yn amlwg. Mae'r egwyddor hyn yn cyd-fynd a Chynllun y Cyngor 2023 - 2028 sydd yn canolbwyntio ar roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth mae'r Cyngor yn ei wneud.

Mae'n bwysig hefyd rhoi ystyriaeth i ganlyniadau prosiect Ardal Ni 2035 (gweler wybodaeth bellach mewn perthynas â MA 36) sydd yn trafod gyda chymunedau lleol er mwyn adnabod beth sy'n bwysig i drigolion a sut yr hoffent weld eu hardal yn datblygu dros y 10 -15 mlynedd nesaf. Mae'r prosiect wedi adnabod 13 cynllun adfywio unigryw sydd yn adlewyrchu dyheadau cymunedau lleol penodol o fewn Gwynedd.

MA 17	**Cynhyrchedd isel (Cynnyrch Domestig Gros, y pen) yr economi leol**

Cyd-destun

Yn unol â ffigyrau a gyhoeddwyd gan ONS yn 2021, amcangyfrifwyd fod Cynnyrch Domestig Gros (GDP) yng Ngwynedd werth £2.9 biliwn. Twf CDG Gwynedd rhwng 2020 a 2021 oedd 10.9% y flwyddyn.

Mae ffigyrau'r ONS ar gyfer 2021 yn awgrymu bod 61,000 o swyddi yng Ngwynedd, sydd â phoblogaeth oedran gweithio (16-65 oed) o 70,686. Gan hynny, 0.86 yw dwysedd swyddi yng Ngwynedd yn 2021, sy'n golygu bod 0.86 o swyddi i bob trigolyn Gwynedd sydd o oedran gweithio.

Roedd gan Wynedd gyflog cyfartalog ar gyfer gweithwyr llawn amser o £31,008 yn 2023. 2.1% yw cyfradd diweithdra Gwynedd yn 2023.

- Gwerth CDG (GDP) Gwynedd yw 3.6% o economi Cymru. Gwynedd yw'r 12fed awdurdod lleol yng Nghymru (cyfanswm o 22) yn ôl y CDG, a'r 9fed awdurdod lleol yng Nghymru yn ôl CDP y pen.
- Mae'r 61,000 o swyddi yng Ngwynedd yn cynrychioli 4.2% o'r 1,458,000 o swyddi a gofnodwyd yng Nghymru.
- Mae cyfradd diweithdra Gwynedd yn 2.1% sydd 1.8% yn is na'r gyfradd ddiweithdra Cymru gyfan (3.6%).

MA 18	**Diwallu'r galw am dir ac adeiladau ar gyfer cyflogaeth mewn lleoliadau cynaliadwy i gwrdd â'r angen sydd wedi'i nodi ar draws yr ardal (trefol a gwledig)**

Cyd-destun

- Sicrhau ei fod yn gynaliadwy o ran eu lleoliad o ran teithio a hefyd o ran y math o ddefnyddiau sydd wedi eu lleoli yno.
- O fewn y CDLl ar y Cyd fe warchodir 270.3ha o dir cyflogaeth gyda 1.7ha ychwanegol wedi ei ddynodi er defnydd cyflogaeth. Mae'r tir cyflogaeth sydd wedi cael ei gymryd fyny yn ystod oes y Cynllun yn isel ac nid yw'n cyd-fynd gyda'r angen/galw a ragwelwyd.
- Gall nifer o ffactorau effeithio ar y diffyg datblygiadau cyflogaeth gan gynnwys diffyg gallu, costau uchel, newidiadau mewn gofynion (lleoliadau a mathau ynghyd ac effaith y pandemig.
- Bydd yn gwbl hanfodol cynnal asesiad manwl o'r twf cyflogaeth a ragwelir er sicrhau ei fod yn addas ac yn cyrraedd gofynion y farchnad.

MA 19	**Ymateb i anghenion datblygu busnes a chyflogaeth cyflogwyr presennol / newydd**

Cyd-destun

Pwysleisir Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040 yr angen i sicrhau fod Cynlluniau Datblygu Lleol yn cael ei gynllunio'n gadarnhaol i ddiwallu anghenion cyflogaeth ardaloedd gwledig, gan gynnwys cyflogaeth yn deillio o'r economi sylfaenol; y sector amaethyddol a choedwigaeth, gan gynnwys cynigion i arallgyfeirio; busnesau newydd a microfusnesau. Nodir yn ogystal y dylid annog datblygu sectorau a busnesau technoleg arloesol sy'n dod i'r amlwg, er mwyn helpu ardaloedd gwledig i wireddu eu potensial llawn, gan ehangu'r sail economaidd a chreu swyddi o safon uwch.

Bydd angen ymagwedd arloesol i'r ddarpariaeth o dir cyflogaeth o fewn y darpar Gynllun Datblygu Lleol, er sicrhau eu bod yn cyfarch anghenion cenedlaethau presennol a'r dyfodol gyda'r nod ehangach o greu cymunedau hyfyw, ffyniannus a chynaliadwy.

MA 20	**Mynediad at addysg a hyfforddiant sgiliau priodol yn y lleoliadau iawn**

Cyd-destun

Ystyriaeth angen ei roddi i gapasiti sefydliadau addysgiadol i allu ymdopi a thwf y dyfodol. Mae sicrhau cyfundrefn addysg a hyfforddiant addas a chadarn yn bwysig o ran darparu'r sail i dwf cynaliadwy Gwynedd i'r dyfodol ac mae'n bwysig hefyd mewn perthynas â mynd i'r afael a nifer o'r Materion Allweddol eraill a'u hamlygir.

Mae yna sefydliadau addysg a hyfforddiant niferus yng Ngwynedd sydd yn cynnwys 76 ysgol cynradd, 14 ysgol uwchradd/ysgol dilynol, 2 ysgol arbennig, 9 campws/lleoliad addysg bellach, ynghyd a Prifysgol Bangor.

Mae angen felly sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau newydd yn manteisio ar y budd a ddaw o'r sefydliadau addysgol/hyfforddiant hyn. Mae cyswllt yma gyda'r materion eraill a'u noder e.e. diboblogi gwledig, o safbwynt sicrhau gweithlu sydd â lefel dda o addysg a sgiliau perthnasol.

Mae'r tabl isod yn nodi cymwysterau poblogaeth Gwynedd[1] yn y cyfnod Ionawr-Rhagfyr 2025 (ar gyfer poblogaeth 16-64 mlwydd oed). Noder fod poblogaeth Gwynedd yn perfformio yn dda iawn o'i gymharu â'r wybodaeth gymharol. Mae'n bwysig sicrhau'r amgylchiadau addas i gynnal a gwella ar hyn.

	Gwynedd (%)	Cymru (%)	Prydain Fawr (%)
Cymwysterau Lefel 4 ac yn uwch	42.7	44.8	48.6
Cymwysterau Lefel 3 ac yn uwch	69.4	67.1	69.0
Cymwysterau Lefel 2 ac yn uwch	87.1	87.1	87.0
Cymwysterau Lefel 1 ac yn uwch	90.4	89.4	89.3
Cymwysterau eraill	4.3	2.9	4.4
Dim cymwysterau	5.3	7.7	6.3

Ffynhonnell: Arolwg poblogaeth blynyddol Swyddfa Ystadegau Gwladol

MA 21	**Gofynion seilwaith (e.e. telathrebu / TGCh, dŵr, cysylltiadau trafnidiaeth, gwaredu dŵr aflan a dŵr wyneb) sy'n gysylltiedig â datblygiadau presennol a newydd, gan gynnwys unrhyw ddatblygiadau seilwaith mawr.**

Cyd-destun

"Er mwyn gallu sicrhau cynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, mae darparu seilwaith digonol ac effeithlon, gan gynnwys gwasanaethau fel addysg ac iechyd ynghyd â thrafnidiaeth, cyflenwad dŵr, carthffosydd, rheolaeth gynaliadwy ar wastraff, trydan a nwy (y defnyddolion) a thelathrebu, yn hanfodol" (para 3.61, Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 12, Chwefror 2024).

Mae'n bwysig sicrhau fod datblygiadau presennol ynghyd a rhai arfaethedig yn cael eu cefnogi gan seilwaith addas. Ynghyd â cyd-fynd a gofynion a disgwyliadau iechyd cyhoeddus, mae gan hyn hefyd oblygiadau mewn perthynas a lliniaru datblygiadau ar sail effeithiau newid hinsawdd ynghyd â sicrhau cysylltiadau economaidd da drwy fodd systemau telathrebu/TGCh effeithiol.

[1] Cymwysterau Lefel 4 ac yn uwch: Er enghraifft, HND, Gradd a Gradd uwch neu debyg.
Cymwysterau Lefel 3 ac yn uwch: Er enghraifft, 2 neu fwy o Lefel A, GNVQ uwch, NVQ 3 neu tebyg
Cymwysterau Lefel 2 ac yn uwch: Er enghraifft, 5 neu fwy TGAU graddau A-C, GNVQ canolraddol, NVQ 2 neu tebyg.
Cymwysterau Lefel 1 ac yn uwch: Er enghraifft, Llai na 5 TGAU gradd A-C, GNVQ sylfaenol, NVQ 1 neu tebyg
Cymwysterau eraill: Er enghraifft, cynnwys cymwysterau o dramor
Dim cymwysterau: Dim gyda unrhyw gymwysterau ffurfiol.

Mae'n bwysig cynnal trafodaethau gyda darparwyr seilwaith. Er enghraifft, mae angen trafod gyda Dŵr Cymru ynglŷn â chapasiti systemau gwaredu dŵr gwastraff a charthffosiaeth ac unrhyw benderfyniad i fuddsoddi yn y dyfodol drwy Gynlluniau Rheoli Asedau.

Mae'r Mater Allweddol hwn yn bwysig i bob math o ddarpariaeth o fewn Gwynedd.

MA 22	**Dirywiad yn ffyniant a bywiogrwydd canol trefi fel llefydd sy'n cynnig cyfleoedd siopa, hamdden, cyflogaeth a chartrefi**

Cyd-destun

Pwyslais ar sicrhau cymysgedd o ddefnyddiau addas yng nghanol trefi

Mae ffyniant canol trefi yn parhau i ddirywio. Sefyllfa economaidd cyffredinol y wlad gyda nifer o siopau gadwyn cenedlaethol yn cau wedi cyfrannu tuag at y dirywiad graddol. Pandemig Covid wedi bod yn ergyd ac wedi effeithio'n sylweddol ar y stryd fawr.

Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 'Adeiladu Lleol Gwell: Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair' yng Ngorffennaf 2020. Y ddogfen hon yn adnabod yr angen i fod yn arloesol yn yr ymagwedd polisi cynllunio mewn perthynas â chanol trefi. Pwysig ystyried yr egwyddor o 'Greu Lle' a sicrhau strategaeth ofodol gynaliadwy.

MA 23	**Ymateb i anghenion y diwydiant ffermio a diwydiannau gwledig eraill, gan gynnwys arallgyfeirio fferm a defnyddio adeiladau fferm segur**

Cyd-destun

Gweledigaeth sydd wedi ei nodi yn nogfen Cymru'r Dyfodol yn nodi'r angen i gefnogi cyfleoedd gwaith mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys yr angen i gefnogi cyfleoedd arallgyfeirio.

Creu cymuned wledig sydd yn ffynnu ac wedi ei gysylltu'n dda yn ddigidol ac yn ffisegol.

MA 24	**Angen gwell darpariaeth o dwristiaeth gynaliadwy 'drwy gydol y flwyddyn' sydd yn hyrwyddo a gwarchod treftadaeth a diwylliant Cymreig a'r iaith Gymraeg**

Cyd-destun

Mae'r economi twristiaeth yn darparu swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau sydd yn cynnal a chynnig cyfleoedd i gymunedau ar draws Wynedd. Mae posib cynnal economi twristiaeth gynaliadwy yng Ngwynedd sydd yn cyfrannu mewn modd positif yn economaidd, ynghyd a chynnig manteision cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol.

Mae 'Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040' yn cydnabod pwysigrwydd y sector twristiaeth i'r economi wledig. Hyrwyddir sector twristiaeth gynaliadwy gan nodi'r angen i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer twristiaeth actif, werdd a diwylliannol.

Mae'r Cynllun Strategol: Economi ymweld gynaliadwy Gwynedd ac Eryri yn cynnwys cyfres o egwyddorion ac amcanion er ffurfio economi ymweld gynaliadwy'r ardal. Nod y cynllun yw sefydlu economi ymweld cynaliadwy yng Ngwynedd ac Eryri. Golygai fod ffactorau megis lles y bobl a chymunedau, cyflwr yr amgylchedd naturiol a chryfder yr iaith a diwylliant Cymraeg yn cael eu hystyried ochr yn ochr â ffactorau ariannol y diwydiant ymweld. Yn syml, byddai economi ymweld cynaliadwy o fudd i bobl, amgylchedd a diwylliant Gwynedd ac Eryri.

MA 25	**Bod angen diogelu adnoddau mwynau'r ardal, a manteisio'n llawn ar agregau eilaidd wrth asesu'r lefelau cyflenwi**

Cyd-destun

Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn datgan ym mharagraff 5.14.1 *"Mae angen amrywiaeth eang o fwynau ar gymdeithas, a bydd yr angen hwnnw'n parhau hyd y gellir rhagweld. Mwynau yw prif gyfansoddion y rhan fwyaf o ddeunyddiau adeiladu, a llawer o gynhyrchion fferyllol, cemegol, amaethyddol, cerbydau modur, metelegol, electroneg, awyrofod, plastigau, ceramig a phapur. Mae mwynau sy'n gysylltiedig â'r diwydiant adeiladu a chynhyrchion mwynau yn hynod bwysig yng Nghymru, ac yn hollbwysig ar gyfer tai a seilwaith, megis ysgolion, ffyrdd, rheilffyrdd, meysydd awyr ac amddiffynfeydd rhag llifogydd, ac mae cyflenwad cyson a digonol o ddeunyddiau yn angenrheidiol".*

Ym Mholisi Cynllunio Cymru 12, mae'r paragraffau isod yn berthnasol i faterion mwynau;
5.10.1 - 5.10.17, 5.14.1 - 5.14.57. Rhai o'r prif faterion sydd angen yw ystyried wrth ddatblygu'r cynllun newydd yw;

- Diogelu adnoddau mwynau a seilwaith.
- Asesu'r cyflenwad a galw ac Agregau- yn unol â darganfyddiadau'r Adroddiad Technegol Rhanbarthol (isod).
- Safleoedd anweithredol - gorchmynion gwahardd, adfer neu ôl-ddefnydd addas.
- Ardaloedd gwaith ar gyfer y dyfodol - safleoedd penodol, ardaloedd a ffafrir, ardaloedd chwilio.
- Mwynau nad ydynt yn Agregau - cerrig dimensiwn (carreg adeiladu addas penodol megis llechen), calchfaen at ddibenion diwydiannol, mawn, mwynau eraill, pyllau benthyg.
- Diogelu nodweddion a phriodoleddau arbennig leoedd – Parciau Cenedlaethol, AHNE, SODdGA, AGA a.y.b.
- Lleihau'r effeithiau cloddio am fwynau a gwaith cysylltiedig – amodau cynllunio perthnasol.
- Clustogfeydd o amgylch safleoedd mwynau – 100m ar gyfer safleoedd mwynau tywod a graen a 200m ar gyfer safleoedd mwynau craig galed.
- Estyniadau i safleoedd mwynau sefydledig.
- Adfer ac ôl-ofal.

Ymhellach, mae PCC yn pwysleisio'r angen echdynnu a defnyddio mwynau mewn modd effeithlon ac i ddiogelu adnoddau mwynau. I sicrhau cyflenwad o fwynau, a PCC a'r Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1: Agregau (MTAN) yn datgan bod angen creu Datganiad Technegol Rhanbarthol o dan ofal Gweithgorau Agregau Rhanbarthol. Cyhoeddwyd yr ail adolygiad o'r Adroddiad Technegol Rhanbarthol (DTRh 2) ar gyfer Gogledd Cymru yn fis Medi, 2020. Mae Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd yn ffurfio rhan o Weithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru ac yn rhan o 'is rhanbarth Gogledd Orllewin Cymru' (ynghyd a ACLl Conwy, Ynys Môn a Pharc Cenedlaethol Eryri).

DRAFT

Pwrpas yr Adroddiad Technegol Rhanbarthol yw rhagamcanu'r galw yn y dyfodol am agregau fel y gellir cynllunio ar gyfer datblygu mwynau mewn modd rheoledig a chymesur er mwyn nodi pa lefel o ddarpariaeth agregau y mae angen ei gwneud ym mhob ardal awdurdod lleol.

Cyflwynodd DTRh 2 ofyniad i bob awdurdod ym mhob isranbarth, baratoi Datganiad o Gydweithrediad Isranbarthol (SSRC). Mae'r SSRC nid yn unig yn sicrhau bod y dosraniadau isranbarthol cyffredinol yn cael eu bodloni ond hefyd yn cael ei ddefnyddio fel tystiolaeth hanfodol i ddangos y byddai'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yn darparu'r angen a aseswyd yn wrthrychol am fwynau dros gyfnod y cynllun. Mae unrhyw Ddatganiad o Gydweithrediad Isranbarthol yn ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

Nid oes newid sylweddol wedi bod i'r cyd-destun polisi cenedlaethol ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol diwethaf.

THEMA – YR AMGYLCHEDD

MA 26	**Bod angen lliniaru effeithiau'r newid hinsawdd, e.e. lleihau gollyngiadau nwyon tŷ gwydr, hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel**

Cyd-destun

Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddodd Cyngor Gwynedd ddatganiad ein bod yn wynebu argyfwng hinsawdd, gan ymrwymo i gymryd camau pendant i leihau allyriadau carbon ac ymdrechu am ddyfodol di-garbon. Mae Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022/23-2029/30 gan y Cyngor yn amlinellu pa gamau fydd yn cael eu cymryd rhwng 2022 a 2030 er mwyn cyrraedd y nod o fod yn Gyngor carbon sero net.

Rydym yn gweld effeithiau difrifol megis encilio llen ia, lefelau'r môr yn codi, newid yn y tymhorau, ac mae tywydd eithafol sy'n arwain at sychder neu lifogydd yn dod yn ddigwyddiadau mwy rheolaidd.

Newid yn yr hinsawdd yw un o'n heriau mwyaf, ac mae'n gofyn am weithredu ar y cyd. Mae'n fater hollbwysig nid yn unig yng Ngwynedd ond yn fyd eang ac mae'n golygu sialens hynod arwyddocaol i gymdeithas.

Mae'r mater allweddol hwn felly yn flaenoriaeth a fydd angen treiddio drwy'r Cynllun yn ei gyfanrwydd.

MA 27	**Addasu i effeithiau'r newid hinsawdd sy'n cael eu rhagweld ar gyfer y blynyddoedd nesaf, e.e. mwy o lifogydd, lefel y môr yn codi, erydiad arfordirol, stormydd, cyfnodau o dywydd poeth, cyfnodau sychach**

Cyd-destun

Tra ei fod yn hollbwysig ceisio lliniaru effeithiau newid hinsawdd, mae'n rhaid deall effeithiau'r hyn a'i rhagwelir ac mae'n rhaid i'r Cynllun sicrhau dyfodol sydd yn llwyr ystyried hyn.

Wrth dderbyn yr argyfwng hinsawdd fel blaenoriaeth sydd yn greiddiol i fwyafrif os nad yr holl faterion allweddol, mae hyn yn cyd-fynd â gofynion Polisi Cynllunio Cymru a Chymru'r Dyfodol.

Mae'n bwysig felly sicrhau bod y Cynllun newydd yn cydymffurfio â gofynion y darpar Nodyn Cyngor Technegol 15 'Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol'. Bydd sicrhau cysylltiad cyson gydag asiantaethau a rhanddeiliaid perthnasol, megis Cyfoeth Naturiol Cymru, drwy gydol y broses o baratoi'r Cynllun yn hollbwysig.

MA 28	Lleihau'r angen am ynni, ac adnoddau eraill, ar gyfer datblygiadau yn y lle cyntaf

Cyd-destun

Ym mis Hydref 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Cyllideb Carbon 2 Sero Net Cymru. Mae'r Cynllun yn ymdrin â'r hail gyllideb garbon (2021-2025). Mae'n edrych y tu hwnt i'r cyfnod hwn ac yn dechrau gosod y sylfeini ar gyfer Cyllideb Garbon 3 a'r targed ar gyfer 2030 yn ogystal â'r targed sero net ar gyfer 2050.

Mae Cynlluniau Ynni Ardal Lleol (LAEP) yn nodi'r cyfuniad dewisol o newidiadau technolegol a newidiadau system sydd eu hangen i'r system ynni lleol, i ddatgarboneiddio gwres a thrafnidiaeth leol a gwireddu cyfleoedd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn lleol. Mae'n helpu ardaloedd lleol i ddatblygu cynlluniau i gyrraedd eu targedau newid hinsawdd drwy archwilio amrywiaeth o sefyllfaoedd ynni lleol.

Angen manteisio ar gyfleoedd ynni adnewyddadwy a charbon isel fel rhan o'r ymrwymiad cyffredinol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Yn gyffredin i weddill Cymru, mae capasiti grid ar draws y rhwydweithiau Trosglwyddo a Dosbarthu yng Ngwynedd yn dal i fod yn gyfyngedig iawn a allai gyfyngu ar gysylltiad cenhedlaeth newydd yn y dyfodol.

MA 29	Angen cynhyrchu llai o wastraff yn y lle cyntaf, a hwyluso ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff yn ogystal â gwaredu gwastraff gweddilliol

Cyd-destun

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'r rôl y mae'n rhaid i'r system defnydd tir ei chwarae o ran hwyluso rheoli gwastraff cynaliadwy ac mae'n cydnabod y trawsnewid y mae'r diwydiant gwastraff yn mynd drwyddo. Ei nod yw gwneud y defnydd gorau o adnoddau materol ac mae'n hyrwyddo'r economi gylchol trwy ddewisiadau dylunio i atal gwastraff. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi bod gan y system gynllunio rôl bwysig i'w chwarae o ran hwyluso rheoli gwastraff drwy ddarparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau.


Ym Mholisi Cynllunio Cymru 12, mae'r paragraffau isod yn berthnasol i faterion gwastraff;
5.11.1 – 5.13.14.

Mae TAN 21: Gwastraff yn nodi'r prif egwyddorion y dylid eu cymhwyso wrth gynllunio ar gyfer gwastraff ac yn cynghori mai Polisi Cynllunio Cymru, TAN 21, CDLl, Tuag at Ddyfodol Diwastraff a'r Cynlluniau Sector yw'r cynllun rheoli gwastraff cyffredinol ar gyfer Cymru, fel sy'n ofynnol o dan Gyfraith Ewrop (neu gyfraith DU sydd wedi deillio o'r gyfraith wreiddiol yn dilyn gadael yr Undeb Ewropeaidd). Mae TAN 21 yn nodi'r angen i sicrhau bod digon o le i waredu ac adennill gwastraff dinesig wrth osgoi gorddarpariaeth. Mae TAN 21 hefyd yn nodi gofynion monitro rhanbarthol, ar gyfer pob cais yn ymwneud â gwastraff i gynnwys Asesiad Cynllunio Gwastraff.

Yn ganolog i'r holl benderfyniadau cynllunio ar gyfer datblygiadau rheolaeth gwastraff yw'r hierarchaeth gwastraff.

Ffigwr 4: Hierarchaeth Gwastraff, TAN 21 Gwastraff (Llywodraeth Cymru, 2014)

(Mae'r llun ar gael yn y Saesneg yn unig)



Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i "economi sero-wastraff" lle mae adnoddau **materol** yn cael eu hailddefnyddio, eu hailgylchu neu eu hadennill lle bynnag y bo modd, a dim ond yn cael eu gwaredu fel dewis olaf un.

O ran polisi ac amcanion cyffredinol cyhoeddwyd 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff, Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned (TZW) - Dogfen Strategaeth Wastraff Cyffredinol i Gymru' yn 2010 ac mae'n darparu'r strategaeth genedlaethol ar gyfer rheoli gwastraff, gosod targedau ailgylchu, capiau ar Ynni o Wastraff a thirlenwi. Mae'r ddogfen yn cynnwys targedau tymor canolig hyd at 2024/25 (tuag at ddim gwastraff) a dyheadau tymor hwy hyd at 2050 (cyflawni dim gwastraff). Prif nod y ddogfen yw sicrhau bod gwastraff yn cael ei reoli mewn modd cynaliadwy.

Mae rhagor o ddogfennau perthnasol sy'n berthnasol i faterion gwastraff

- Tuag at Ddyfodol Diwastraff – Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned (Llywodraeth Cymru, 2011)
- 'Collections, Infrastructure and Markets Sector Plan' (CIM) (Noder bod Adran 2.3.4 o'r CIM wedi'i disodli/disodli gan yr 'Asesiad Strategol o'r angen yn y dyfodol am gapasiti ynni o wastraff yn nhri rhanbarth economaidd Cymru' a gyhoeddwyd yn 2021 (a drafodir ymhellach isod) a gyflwynodd foratoriwm ar weithfeydd Ynni o Wastraff o 10MW neu fwy.
- 'Municipal Sector Plan' (MSP)
- 'Construction and Demolition Sector Plan'
- 'Food Manufacture, Service and Retail Sector Plan'
- 'The Waste Prevention Programme for Wales' yn unol â'r Waste Framework Directive (European Requirement for Member States). Er nad yw'n ddogfen 'bolisi cynllunio' mewn gwirionedd, mae'n rhan o'r cynllun rheoli gwastraff cenedlaethol ac yn cynnwys rhaglenni ar gyfer atal gwastraff cartrefi, diwydiannol a masnachol ac adeiladu a dymchwel.
- 'Mwy Nag Ailgylchu' sy'n ddogfen strategol ar gyfer sicrhau economi cylchol yng Nghymru.

Un mater arall i'w ystyriaeth yw'r newidiadau mewn trethi yn dilyn y Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 / *Landfill Disposals Tax (Wales) Act 2017*. Mae'r ddeddf hwn wedi arwain at newid sylweddol mewn cyfradd treth pob tunnell i £102.10 a £3.25 (ar gyfer gwastraff anadweithiol). Mae hyn wedi golygu fod safleoedd tirlenwi yn methu cystadlu a mathau gwahanol o reolaeth gwastraff.

Credir fod yna newidiadau ar y gweill ar gyfer defnydd a throthwyon eithriadau trwyddedu gwastraff yn genedlaethol ac nid yw'n glir pa effaith y caiff hyn ar y ddarpariaeth rheoli gwastraff.

MA 30	**Angen gwarchod, a gwella amgylchedd naturiol a chynefinoedd a rhywogaethau'r ardal**

Cyd-destun

Mae ardal Gynllunio Gwynedd yn meddu ar nodweddion amgylcheddol o safon uchel. Mae'n hollbwysig gwarchod a gwella'r agweddau hyn ynghyd a'r cynefinoedd a'r rhywogaethau sydd yn bodoli o fewn yr ardal. Mae'r nodweddion a'r warchodaeth hyn yn cynnwys (nid yn rhestr lawn) Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Pen Llŷn, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol ac mae Parc Cenedlaethol Eryri yn ffinio ag ardal y Cynllun.

Nid yn unig ei fod yn bwysig gwarchod y nodweddion amgylcheddol, cynefinoedd a'r rhywogaethau am eu gwerth naturiol amlwg ond hefyd maent yn bwysig o safbwynt eu gwerth ehangach i'r ardal a'i boblogaeth fel esbonnir ym mharagraff 6.0.2 o Bolisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12, Chwefror 2024): "Mae'n rhaid diogelu nodweddion arbennig ac unigryw a phriodoleddau cynhenid yr amgylchedd naturiol ac adeiledig am yr hyn ydynt, am resymau hanesyddol, golygfaol, esthetig a chadwraeth natur. Y nodweddion hyn sy'n rhoi hunaniaeth a chymeriad unigryw i leoedd ac yn darparu profiadau diwylliannol a ffyrdd iach o fyw".

MA 31	**Gwneud y defnydd gorau o'r lefelau cymharol isel o safleoedd tir llwyd yn yr ardal yn ogystal ag adeiladau gwag neu a danddefnyddir.**

Cyd-destun

Pwysig hybu unrhyw gyfleoedd addas ar dir neu adeiladau a ddefnyddiwyd y flaenorol cyn belled â'u bod mewn lleoliadau addas o safbwynt egwyddorion cynllunio ac o ran cynaliadwyedd. Mae'r safleoedd hyn yn aml mewn mannau cynaliadwy gyda seilwaith a gwasanaethau wedi ei darparu yno yn barod.

Mae hyn yn cyd-fynd ag amcanion Polisi Cynllunio Cymru (para.3.55, Rhifyn 12, Chwefror 2024) sydd yn nodi y dylid defnyddio tir gafodd ei ddatblygu o'r blaen, lle medrir, yn lle safleoedd maes glas os yw'n addas datblygu arno. Mewn aneddiadau, fel arfer, ystyrir bod tir o'r fath yn addas ar gyfer datblygiad priodol lle byddai ei ailddefnyddio'n hyrwyddo egwyddorion cynaliadwyedd a bod modd trechu unrhyw gyfyngiadau.

THEMA – TRAFNIDIAETH A HYGYRCHEDD

MA 32	**Yr argraff bod rhannau o ardal y Cynllun yn anhygyrch.**

Cyd-destun

Mae Gwynedd yn ei hanfod yn Sir wledig, gyda dwysedd poblogaeth ACLl yn 46.3 person i bob cilomedr sgwâr (Cyfrifiad 2021), ac mae gwahaniaethau o ran safonau cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus rhwng gwahanol ardaloedd. Mae cwestiwn os oes gorddibyniaeth ar gerbydau preifat mewn rhai mannau o fewn y Sir? Gallai hyn arwain at broblemau i aelwydydd nad sydd yn berchen ar gar. Noder nad oes gan 17.7% o aelwydydd Gwynedd gar neu gerbyd preifat (Cyfrifiad 2021), gyda'r ffigwr hwn yn arwyddocaol mewn cymunedau gwledig e.e. 6.5% o aelwydydd Cyngor Cymuned Aberdaron a 6.4% yng nghymunedau Botwnnog a Thudweiliog. Hyn yn gallu cael effaith economaidd a chymdeithasol o fewn cymunedau penodol, yn enwedig rhai difreintiedig a ble nad oes lawer o wasanaethau neu gyfleusterau wedi eu lleoli ynddynt.

Mae cyswllt yma gyda nifer o'r materion allweddol eraill sydd wedi eu hamlygu yma. Er enghraifft, nodir fod canran sylweddol o LSOAs Gwynedd yn y 10% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran mynediad at wasanaethau. Noder hefyd bwysigrwydd isadeiledd addas gan gynnwys o ran telegyfathrebu er mwyn sicrhau buddion economaidd a chymdeithasol mewn lleoliadau gwledig. Mae angen ystyried y cysylltiadau o fewn yr ardal yn ei gyfanrwydd a hefyd yn rhanbarthol ynghyd a rôl y prif ganolfannau yn gwasanaethu anghenion dydd i ddydd trigolion lleol (gweler materion allweddol MA 34, MA 38 a MA 39).

MA 33	**Ardaloedd gyda chysylltiadau telathrebu a TGCh gwael**

Cyd-destun

Yn y byd modern mae'n hynod bwysig fod gan gymunedau gysylltiadau telathrebu a digidol da. Mae hyn yn bwysig o ran cynnal cysylltiadau cymdeithasol ond hefyd o ran dulliau o weithio, ble mae gweithio o adref wedi dod yn fwyfwy amlwg. Gall cysylltiadau TG gwael felly gael sgil effaith negyddol ar gymunedau o ran cadw aelwydydd economaidd weithgar a fyddai'n cyfrannu yn bositif nid yn unig i'r economi leol ond hefyd yn gymdeithasol.

Mae hyn hefyd yn bwysig o safbwynt sicrhau bod cyflogwyr yn gallu parhau i weithredu yn effeithiol yn yr ardal a hefyd gall fod yn fodd o ddenu cyflogaeth newydd i ardaloedd penodol o Wynedd.

Mae'r tabl isod yn nodi gwybodaeth ar gyfer eiddo yn etholaeth Dwyfor Meirionnydd o'i gymharu â gwybodaeth ar gyfer Cymru gyfan a'r D.U (gwybodaeth Ofcom, 2023). Gweler fod pob categori yn awgrymu cysylltedd telathrebu/TGCh sydd yn waeth na'r hyn a welir ar gyfartaledd trwy Gymru gyfan ynghyd a'r D.U.

Ardal	Cyflymder lawrlwytho cyfartalog (Mbps)	Argaeledd band eang 'superfast'	Argaeledd gigabit	Methu derbyn band eang addas	Derbyn llai na 10 Mbps	Derbyn mwy na 30 Mbps
Etholaeth Dwyfor Meirionnydd	84.4	91.3%	46.9%	1.3%	7.6%	76.1%
Cymru	122.9	95.7%	66.9%	0.5%	4.3%	85.3%
Y Deyrnas Unedig	151.3	96.8%	78.5%	0.2%	3.6%	85.8%

MA 34	**Problemau o ran hygyrchedd gwasanaethau a chyfleusterau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, oherwydd y diffyg dewis o ddulliau trafnidiaeth.**

Cyd-destun

Mae mapiau mynegai amddifadedd lluosog yn awgrymu fod ardaloedd gwledig sydd â diffyg cysylltiadau trafnidiaeth yn parhau i wynebu problemau hygyrchedd. Mae angen ymafael a'r her o sicrhau mynediad i wasanaethau a thrwy hynny annog cymunedau hyfyw a chynaliadwy drwy ddull cydlynus. Mae mynediad i wasanaethau a chyfleusterau yn enwedig mewn cymunedau gwledig yn sicrhau cyfleoedd teg i bawb, mae'n gwella ansawdd bywyd a chynhwysedd cymdeithasol drwy ganiatáu i bobl ymgymryd mewn gweithgareddau cymdeithasol ac mae'n fodd o hybu'r economi leol gan sicrhau fod yna gysylltiadau hygyrch i'r gweithlu.

Mae'r Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn ddull swyddogol o fesur a chymharu amddifadedd ar gyfer ardaloedd yng Nghymru. Mae'n canfod ardaloedd sydd â'r crynoadau uchaf o fathau gwahanol o amddifadedd. Amddifadedd yw'r diffyg mynediad i gyfleoedd ac adnoddau y byddem yn eu disgwyl yn ein cymdeithas. Gall hyn fod yn nhermau nwyddau materol neu allu'r unigolyn i gymryd rhan ym mywyd cymdeithasol arferol y gymuned.

Grŵp o fesuriadau gwahanol wedi'u cyfuno'n un rhif yw mynegai. Mae MALIC yn cynnwys wyth maes (neu fath) gwahanol o amddifadedd (gweler yr ochr dde). Mae data pob maes yn cael ei gasglu o bob math o ddangosyddion gwahano, sef:-

- Incwm
- Tai
- Cyflogaeth
- Iechyd
- Addysg
- Mynediad i wasanaethau
- Diogelwch cymunedol
- Amgylchedd Ffisegol

Mae MALIC yn gosod yr holl ardaloedd yng Nghymru mewn safleoedd rhwng 1 (mwyaf difreintiedig) a 1,909 (lleiaf difreintiedig). Mae'r Mynegai yn darparu ffordd o nodi'r ardaloedd yn eu trefn, o'r lleiaf i'r mwyaf difreintiedig. Yn hytrach na mesur y lefelau amddifadedd mewn ardal, mae'n mesur a yw'r ardal yn fwy neu'n llai difreintiedig na holl ardaloedd eraill Cymru.

Yng Ngwynedd yr ardal a restrir fel yr ardal fwyaf difreintiedig (rhif 81 allan o 1,909) yw Gogledd Marchog yna Peblig (rhif 173). Yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yw Penrhosgarnedd (1742) ac yna Bangor Uchaf (1641).

Yng nghyswllt y dangosyddion unigolyn ymddengys fod cymunedau gwledig Gwynedd yn wynebu diffyg mynediad i wasanaethau, nodi'r bod y rhai mwyaf difreintiedig o ran mynediad i wasanaethau fel a chanlyn:-

- Corris/Mawddwy – 7
- Arthog, Llangelynnin a Llanegryn - 9
- Aberdaron/Botwnnog and Tudweiliog -12
- Brithdir & Llanfachreth/Ganllwyd/Llanelltyd – 36
- Dolbenmaen – 50

MA 35	**Mae angen gwarchod a hybu'r iaith Gymraeg gan hyrwyddo defnydd cymunedol o'r iaith. Angen sicrhau cynnydd yn yr ardaloedd a chymunedau o fewn Gwynedd ble mae'r Gymraeg yn ffynnu o safbwynt canran y boblogaeth sydd yn gallu siarad yr iaith**

Cyd-destun

Mae'r iaith Gymraeg yn rhan ganolog o wead cymdeithasol Gwynedd ac mae gwarchod a hybu'r iaith yn amcan hollbwysig. Noder mai Gwynedd yw'r Awdurdod Lleol sydd â'r canran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru gyda Chyfrifiad 2021 yn nodi fod 64.4% o boblogaeth y Sir yn gallu siarad Cymru.

Fodd bynnag noder bod lleihad o 1% wedi bod yn siaradwyr Cymraeg o fewn y Sir ers Cyfrifiad 2011. Mewn gwirionedd mae hyn yn golygu lleihad o 3441 o siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd yn y cyfnod hwn (poblogaeth dros 3 mlwydd oed). Noder fod hyn yn parhau gyda tueddiad o leihad yn y canran o siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd ym mhob Cyfrifiad ers 1981.

Fel nodwyd mewn perthynas â Mater Allweddol MA 4 mae lleihad wedi bod yn y ganran a gwir nifer o blant (3-15) sydd yn gallu siarad Cymraeg yng Ngwynedd rhwng 2011 a 2021. Er hyn noder mai'r grŵp oedran hwn sydd a'r canran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd (86.2%).

Yr hyn sydd yn bwysig yw sicrhau bod yr iaith yn rhywbeth byw sydd yn cael ei hyrwyddo ar lefel cymunedol fel ei fod yn rhan annatod o fywyd naturiol dydd i ddydd cymunedau'r Sir. Yng Nghyfrifiad 2011 roedd 39 o'r 71 cymdogaeth yng Ngwynedd (sef Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is neu LSOAs) gyda chyfran uwch na 70% yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn wedi gostwng i 34 cymdogaeth erbyn 2021.

Noder fod y canran o siaradwyr Cymraeg yn amrywio yn sylweddol o fewn ardal cynllunio Gwynedd, o 86.3% yn ardal Seiont yng Nghaernarfon i 19.6% yn ardal Deiniol ym Mangor.

MA 36	**Cynnal a chryfhau nodweddion cadarnhaol sy'n cyfrannu at greu cymeriad unigryw gwahanol rannau o'r ardal.**

Cyd-destun

Dylid rhoi ystyriaeth i waith Ardal Ni, ynghyd ac unrhyw waith perthnasol arall sydd yn amlygu cymeriad unigryw gwahanol ardaloedd.

Yn ystod haf 2022 fe wnaeth Cyngor Gwynedd alw ar drigolion y Sir i lenwi holiadur 'Ardal Ni 2035' er mwyn ceisio sefydlu atebion i'r cwestiynau canlynol:

- Beth sy'n dda am eich ardal leol?
- Beth sydd ddim mor dda?
- Beth sydd angen newid er mwyn gwneud eich ardal yn lle gwych i fyw ynddo erbyn 2035?

Bwriad prosiect Ardal Ni 2035 ydi trafod gyda chymunedau lleol er mwyn adnabod beth sy'n bwysig i drigolion a sut yr hoffent weld eu hardal yn datblygu dros y 10 -15 mlynedd nesaf.

Mae'r prosiect wedi adnabod 13 cynllun adfywio unigryw sydd yn adlewyrchu dyheadau cymunedau lleol penodol o fewn Gwynedd.

MA 37	**Angen gwarchod, diogelu, hyrwyddo a gwella yr amgylchedd hanesyddol, a nodweddion o bwysigrwydd diwylliannol ac archeolegol, a'u gosodiadau.**

Cyd-destun

Para 6.1.5 Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 12, Chwefror 2024:

"Rhaid i'r system gynllunio ystyried amcanion Llywodraeth Cymru i warchod, diogelu, hyrwyddo a gwella'r amgylchedd hanesyddol fel adnodd ar gyfer llesiant cyffredinol cenedlaethau presennol a'r dyfodol. Mae'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd cyfyngedig na ellir ei adnewyddu ac yn un sy'n cael ei rannu, ac mae'n rhan hollbwysig ac annatod o hunaniaeth hanesyddol a diwylliannol Cymru. Mae'n cyfrannu at fywiogrwydd economaidd a diwylliant, balchder dinesig, natur unigryw'r ardal leol ac ansawdd bywyd yng Nghymru."

Mae Gwynedd yn frith o nodweddion hanesyddol a diwylliannol pwysig, gyda nifer fawr o'r rhain yn destun gwarchodaeth benodol. Mae'r nodweddion hyn yn ffurfio rhan bwysig o hunaniaeth yr ardal a'r ymdeimlad o le. Mae eu gwarchod, diogelu a'u hyrwyddo yn bwysig felly o safbwynt eu budd cymdeithasol ac economaidd, wrth gofio eu hatyniad o fewn y diwydiant twristiaeth ac yn ehangach.

Ynghyd a'r ddau safle treftadaeth y byd sydd wedi eu lleoli o fewn y Sir (Castell a Waliau tref Caernarfon a Thirwedd llechi Gogledd Orllewin Cymru), mae'n bwysig gwarchod a hyrwyddo ardaloedd cadwraeth, adeiladau rhestredig, henebion rhestredig, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig, ymysg nodweddion eraill cyffelyb.

THEMA - LLEOLIAD

MA 38	**Y berthynas agos a'r rhyngweithio rhwng aneddleoedd yn ardal y Cynllun a rhai mewn awdurdodau Cynllunio cyfagos**

Cyd-destun

Mae'n bwysig ystyried y budd economaidd a chymdeithasol a ddaw yn sgil sicrhau cysylltiadau da rhwng canolfannau trefol Gwynedd. Dyma'r canolfannau gwaith, gwasanaethau a cyfleusterau sydd yn gatalysis ar gyfer creu budd economaidd a chymdeithasol i'r boblogaeth. Mae'n bwysig felly bod cysylltiad da rhyngddynt er mwyn uchafu'r budd hwn.

Fodd bynnag rhaid cofio bod perthynas bwysig yn bodoli gydag aneddleoedd sydd wedi eu lleoli mewn ardaloedd Cynllunio cyfagos. Yn hyn o beth mae dogfen Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 gan Lywodraeth Cymru yn amlygu'r cysylltiadau rhanbarthol yn y Gogledd ac yn benodol felly'r cysylltedd cenedlaethol ar draws arfordir y gogledd ac Ynys Môn a rhwng de'r Sir a Phowys a Cheredigion. Mae hefyd yn nodi bod Bangor a Caernarfon yn rhan o Ardal Dwf Rhanbarthol 'Aneddiadau Arfordirol Gogledd Cymru'. Nodai Polisi 21 yn y ddogfen hon y "Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gydnabod y rolau y mae'r lleoedd hyn yn eu chwarae fel ffocws ar gyfer tai, cyflogaeth, twristiaeth, trafnidiaeth gyhoeddus a gwasanaethau allweddol yn eu hardaloedd ehangach a chefnogi eu swyddogaeth barhaus fel canolbwyntiau ar gyfer twf isranbarthol".

MA 39	**Y swyddi a'r gwasanaethau allweddol sy'n cael eu darparu yn y trefi mewn ardaloedd cyfagos**

Cyd-destun

Angen arddel y cysyniad o ‘Greu Lle’ ac annog aneddleoedd cynaliadwy ble mae pobl yn gallu byw, gweithio a mwynhau. Mae’n bwysig ystyried y gall y dulliau mwyaf cynaliadwy a hwylus o, er enghraifft, weithio, siopa ac ymgymryd â gweithgareddau cymdeithasol, olygu teithio i ardal awdurdod cynllunio cyfagos. Beth sydd yn bwysig yw sicrhau cysylltiadau da a hygyrch drwy fodd, er enghraifft, trafnidiaeth gyhoeddus er mwyn sicrhau’r budd gorau i drigolion Gwynedd.

Mae dogfen Cymru’r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 gan Lywodraeth Cymru (tudalen 38) yn nodi bod patrymau cymudo yn elfen nodedig o'n heconomïau rhanbarthol, gyda nifer o bobl yn teithio i'w gweithle yn ddyddiol. Mae'r patrymau hyn yn adlewyrchu hierarchaethau rhanbarthol a chanolfannau cyflogaeth hirsefydledig, sydd wedi datblygu'n dda.

DRAFT

4.0 Gweledigaeth

4.0.1 Mae Rheoliad 15 o'r Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd 2015) yn datgan y dylai gweledigaeth ar gyfer y cynllun fod yn unigryw i amgylchiadau lleol, gydag amcanion trosfwaol sy'n ymateb i'r materion allweddol. Mae'n ddatganiad cryno a phenodol sydd yn darparu ffocws i'r Cynllun newydd.

4.0.2 Mae'r weledigaeth angen cyfleu nod cyffredinol y Cynllun a sut bydd ardal yn newid dros gyfnod y Cynllun. Mae'n seiliedig ar ddealltwriaeth o'r materion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol perthnasol sydd wedi eu hamlygu o fewn y Materion Allweddol.

4.0.3 Mae paragraff 5.1 o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3, Mawrth 2020) gan Lywodraeth Cymru sydd yn cyfeirio tuag at Greu Lleoedd Cynaliadwy yn datgan y "*Dylai cynlluniau datblygu gyflwyno gweledigaeth a strategaeth ar gyfer ardal yng nghyd-destun dealltwriaeth drylwyr o anghenion a llesiant lleol, ffactorau galw a chyflenwad, amodau economaidd a'r farchnad." Mae'n* cynnwys pwyslais gofodol ar ddefnydd tir a chyfleu sut y bwriedir i leoedd ddatblygu, newid neu gael eu gwarchod.

4.0.4 Ar sail yr uchod a'r Materion Allweddol, fe nodir y weledigaeth ganlynol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol:

Erbyn 2039 bydd y Cynllun Datblygu Lleol wedi cyfrannu tuag at gynnal a gwarchod nodweddion diwylliannol, ieithyddol a threftadol unigryw Gwynedd ac at greu cymunedau ffyniannus, teg a chynaliadwy sydd yn cynyddu cyfleoedd i bobl leol i fyw drwy gydol eu hoes yn ardal y Cynllun drwy:

- **Sicrhau fod swyddi a thai o'r math a'r raddfa addas i gyfarch anghenion ein cymunedau lleol;**
- **Sicrhau bod trigolion yn byw bywydau mwy diogel, iach a gwyrdd;**
- **Hyrwyddo isadeiledd priodol i gyfarch anghenion a chryfhau'r cysylltiadau o fewn ardal y Cynllun;**
- **Sicrhau fod datblygiadau yn gwarchod a chynnal yr iaith Gymraeg ac yn hybu'r diwylliant lleol;**
- **Warchod asedau naturiol a hanesyddol o fewn ardal y Cynllun a sicrhau fod adnoddau yn cael ei rheoli'n gynaliadwy er budd y boblogaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol;**
- **Mynd i'r afael â heriau newid yn yr hinsawdd a chefnogi datblygiadau ynni adnewyddol ynghyd a lleihau tlodi tanwydd.**

DRAFT

5.0 Amcanion Strategol

5.0.1 Er mwyn gwireddu Gweledigaeth y Cynllun ac i ymateb yn effeithiol i'r Materion Allweddol sydd wedi eu hamlygu, mae 17 Amcan Strategol yn cael eu cynnig ar gyfer y CDLl newydd. Mae'r rhain yn ddatganiadau â ffocws sy'n ceisio mynd i'r afael â'r prif faterion cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol a nodwyd yn yr ardal. Rhaid cysylltu'r amcanion hyn gyda'r weledigaeth, polisïau'r CDLl a'r Fframwaith Fonitro.

5.0.2 Nodai paragraff 5.12 o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3, Mawrth 2020) gan Lywodraeth Cymru y canlynol mewn perthynas â'r amcanion:

"Dylai amcanion y cynllun gael eu datblygu o'r materion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol allweddol a nodwyd yn yr ardal a dylent fod yn gyflawnadwy ac ychwanegu manylion at y weledigaeth. O'u darllen ar y cyd, dylai'r weledigaeth a'r amcanion osod cyd-destun clir ar gyfer strategaeth y CDLl. Dylai'r amcanion lifo drwy'r cynllun a chael eu cysylltu â Chanlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy, polisïau'r CDLl a'r fframwaith monitro. Ar ôl cyflwyno Deddf Llesiant 2015, rhaid i amcanion yr ACLl gyd-fynd â'r nodau a'r amcanion llesiant. Felly, mae'n rhaid i'r ACLl ddangos sut mae pob un o amcanion y CDLl yn cyd-fynd â'r nodau a'r amcanion llesiant."

5.0.3 Er mwyn ceisio sicrhau fod yna linc a chysondeb rhwng y Cynllun Datblygu Lleol a blaenoriaethau'r Cyngor fel sydd yn cael ei osod allan yng Nghynllun y Cyngor, mae themâu'r Cynllun newydd yn dilyn yr un ffurf â'r hyn a'i cynhwysir yng Nghynllun y Cyngor. Ar sail hyn maer Amcanion Strategol yn cael eu grwpio fesul y themâu arfaethedig hyn.

5.0.4 Noder bod 7 blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor fel sydd wedi ei amlygu yn rhan 2.2 o'r adroddiad hwn. Oherwydd natur y blaenoriaethau hyn ac wrth geisio eu trosglwyddo i feysydd gwaith cynllunio defnydd tir priodol, cynigir fod themâu Gwynedd Yfory a Gofalgar ynghyd a Gwynedd Werdd ac Effeithlon yn cael eu cyfuno gan arwain at y themâu canlynol:

- **THEMA 1:** Gwynedd Yfory a Gofalgar
- **THEMA 2:** Gwynedd Lewyrchus
- **THEMA 3:** Gwynedd Glyd
- **THEMA 4:** Gwynedd Gymraeg
- **THEMA 5:** Gwynedd Werdd ac Effeithlon

5.0.5 Mae'r cyswllt o ran sut mae'r Amcanion Strategol yn ceisio ymateb i'r Materion Allweddol wedi ei amlygu yn y tabl isod.

THEMA 1: GWYNEDD YFORY A GOFALGAR		
Rhif Amcan Strategol	**Amcan Strategol**	**Materion Allweddol perthnasol**
AS 1	Gwella a chynnal rhwydweithiau trafnidiaeth ddiogel, effeithlon, o safon uchel, fodern ac integredig a hyrwyddo'r dulliau mwyaf cynaliadwy o deithio	**MA 18, MA 32, MA 34, MA 38**
AS 2	Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.	**MA 6, MA 9, MA 10, MA 12, MA 15, MA 18, MA 20, MA 22, MA 31**

AS 3	Sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cwrdd â safonau uchel o ran ansawdd eu dyluniad, effeithlonrwydd ynni, diogelwch (pobl ac adeiladau) a hygyrchedd, eu bod yn gweddu'n dda ag unrhyw ddatblygiadau presennol, yn gwella tir y cyhoedd ac yn datblygu mannau o ansawdd sy'n unigryw yn lleol.	**MA 8, MA 13, MA 14, MA 16, MA 28, MA 32, MA 34, MA 36**
AS 4	Sicrhau bod aneddiadau yn gynaliadwy, yn hygyrch ac yn diwallu'r holl anghenion sydd gan eu cymunedau yn unol â'u rôl yn y goeden aneddleoedd.	**MA 9, MA 10, MA 12, MA 15, MA 16, MA 18, MA 20, MA 22, MA 34, MA 38**

THEMA 2: GWYNEDD LEWYRCHUS		
Rhif Amcan Strategol	**Amcan Strategol**	**Materion Allweddol perthnasol**
AS 5	Sicrhau bod rhwydwaith o safleoedd cyflogaeth ac adeiladau o faint ac o safon yn cael eu diogelu a'i ddynodi mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n cwrdd orau a gofynion busnesau cyfredol ac sy'n gallu cefnogi'r sectorau yn yr economi lleol sy'n tyfu gan ddenu buddsoddiad, a chadw a chynyddu nifer y swyddi brodorol.	**MA 4, MA 5, MA 17, MA 18, MA 19, MA 39**
AS 6	Sicrhau cyfleoedd i wella sgiliau ac addysg y gweithle.	**MA 10, MA 19, MA 20**
AS 7	Arallgyfeirio economi wledig ardal y Cynllun, adeiladu ar gyfleoedd, cynnig cyfleoedd gyflogaeth leol gyda swyddi o ansawdd, ac sy'n gweddu'r gymuned leol a pharchu buddiannau amgylcheddol.	**MA 4, MA 5, MA 18, MA 19, MA 23**
AS 8	Hyrwyddo rôl amlbwrpas canol trefi a chefnogi adfywio trefol.	**MA 22**
AS 9	Rheoli'r ardal fel cyrchfan cynaliadwy ar gyfer ymwelwyr trwy ddarparu cyfleusterau o safon uchel sy'n cwrdd ag anghenion cyfoes modern ac yn cynnig budd trwy gydol y flwyddyn	**MA 24**

THEMA 3: GWYNEDD GLYD		
Rhif Amcan Strategol	**Amcan Strategol**	**Materion Allweddol perthnasol**
AS 10	Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â strategaeth twf y Cynllun sydd yn cyfrannu tuag at angen lleol ac yn cefnogi cymunedau cynaliadwy	**MA 2, MA 3, MA 7, MA 9**
AS 11	Darparu cymysgedd o dai o safon sydd yn diwallu anghenion lleol	**MA 2, MA 3, MA 6, MA 8**

THEMA 4: GWYNEDD GYMRAEG		
Rhif Amcan Strategol	**Amcan Strategol**	**Materion Allweddol perthnasol**
AS 12	Diogelu a chryfhau'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy sicrhau nad yw datblygiadau yn niweidio lles a ffyniant y Gymraeg fel iaith lafar feunyddiol o fewn cymunedau Gwynedd	**MA 1, MA 2, MA 4, MA 5, MA 6, MA 24, MA 35**
AS 13	Sicrhau bod isadeiledd ffisegol a chymunedol priodol yn ei le, e.e. cyflenwad dŵr, cyfleusterau iechyd, ysgolion, cyfleusterau cymunedol, neu	**MA 10, MA 11, MA 15, MA 16,**

DRAFT

	y gellir ei ddarparu (e.e. trwy gyfraniadau datblygwyr) i ymdopi a phob math o ddatblygiad.	**MA 20, MA 21, MA 33, MA 34, MA 39**

THEMA 5: GWYNEDD WERDD AC EFFEITHLON		
Rhif Amcan Strategol	**Amcan Strategol**	**Materion Allweddol perthnasol**
AS 14	Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy: • sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl; • lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau; • hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal; • defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael; • rheoli, gwarchid a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir	**MA 26, MA 27, MA 28, MA 29, MA 31**
AS15	Gwarchod, gwella a rheoli asedau naturiol a threftadaeth ardal y Cynllun, gan gynnwys ei adnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwyllt, cymeriad y dirwedd ac amgylchedd hanesyddol.	**MA 30, MA 36, MA 37**
AS16	Rheoli gwastraff ar sail yr hierarchaeth o leihau, ail-ddefnyddio, adfer a gwaredu gwastraff yn ddiogel	**MA 29**
AS17	Diwallu anghenion mwynau'n lleol a rhanbarthol mewn ffordd gynaliadwy	**MA 25**

5.1 Matrics Asesu

5.1.1 Mae Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3, Mawrth 2020) gan Lywodraeth Cymru (para. 5.12) yn ei wneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol i gysylltu'r holl Amcanion Strategol gyda Chanlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy ynghyd a'r nodau llesiant.

5.1.2 Mae'r rhan hwn yn darparu asesiad o ran sut mae holl Amcanion Strategol y CDLl newydd yn cyd-fynd â'r gofynion canlynol:

- Nodau llesiant cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy ym Mholisi Cynllunio Cymru.

5.1.3 Fe wneir hyn drwy fodd 2 matrics sydd yn cymharu'r amcanion a ddeillir o'r gofynion uchod yn erbyn yr Amcanion Strategol sydd wedi eu hadnabod.

Tabl 1 – Matrics o Amcanion Strategol Cynllun Datblygu Lleol newydd Gwynedd yn erbyn amcanion nodau llesiant cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

DRAFT

Amcan Strategol	Cymru Lewyrchus	Cymru Wydn	Cymru Iachach	Cymru fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynus	Cymru a diwydiant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang
THEMA 1: GWYNEDD YFORY A GOFALGAR							
AS 1							
AS 2							
AS 3							
AS 4							
THEMA 2: GWYNEDD LEWYRCHUS							
AS 5							
AS 6							
AS 7							
AS 8							
AS 9							
THEMA 3: GWYNEDD GLYD							
AS 10							
AS 11							
THEMA 4: GWYNEDD GYMRAEG							
AS 12							
AS 13							
THEMA 5: GWYNEDD WERDD AC EFFEITHLON							
AS 14							
AS 15							
AS 16							
AS 17							

Tabl 2 - Matrics o Amcanion Strategol Cynllun Datblygu Lleol newydd Gwynedd yn erbyn Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy

Amcan Strategol	Creu a Chynnal Cymunedau	Datblygu ein heconomi mewn dull cynaliadwy	Gwneud y defnydd gorau o adnoddau	Gwarchod yr amgylchedd cymaint a phosibl a Chyfyngu ar effaith amgylcheddol	Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach
THEMA 1: GWYNEDD YFORY A GOFALGAR					
AS 1					
AS 2					
AS 3					
AS 4					

Amcan Strategol	Creu a Chynnal Cymunedau	Datblygu ein heconomi mewn dull cynaliadwy	Gwneud y defnydd gorau o adnoddau	Gwarchod yr amgylchedd cymaint a phosibl a Chyfyngu ar effaith amgylcheddol	Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach
THEMA 2: GWYNEDD LEWYRCHUS					
AS 5	■	■	■		■
AS 6	■	■			
AS 7	■	■	■	■	■
AS 8	■	■	■		■
AS 9	■	■			■
THEMA 3: GWYNEDD GLYD					
AS 10	■	■	■	■	■
AS 11	■				■
THEMA 4: GWYNEDD GYMRAEG					
AS 12	■			■	
AS 13	■			■	■
THEMA 5: GWYNEDD WERDD AC EFFEITHLON					
AS 14		■	■	■	
AS 15	■	■	■	■	■
AS 16			■	■	
AS 17		■	■	■	

DRAFT

6.0 Opsiynau Twf

6.0.1 Rôl sylfaenol y Cynllun Datblygu Lleol yw ystyried yr angen am dwf a datblygiad, a gwneud darpariaeth briodol ar gyfer y twf hwn, yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy. Mae'r adran hon yn cyflwyno pum opsiwn ar gyfer twf dros gyfnod y CDLl (2024 – 2039). Ar gyfer pob opsiwn rhoddir ffigwr ar gyfer y nifer disgwyliedig o gartrefi newydd a swyddi newydd dros gyfnod CDLl o 15 mlynedd (gweler tabl isod).

6.0.2 Wrth anelu at gyflawni Gweledigaeth ac Amcanion Strategol arfaethedig y Cynllun, mae sicrhau twf tai addas a chynaliadwy yn allweddol. Dylai hyn adlewyrchu'r angen i gefnogi cyfleoedd economaidd addas i drigolion Gwynedd, tra'n parchu, diogelu a hyrwyddo nodweddion cymdeithasol ac amgylcheddol pwysig yr ardal.

6.0.3 Mae cyfleoedd sylweddol i gryfhau lles amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ardal y Cynllun. Fodd bynnag, er mwyn gwneud hyn, rhaid i'r ardal fod mewn sefyllfa dda i fodloni gofynion presennol a dyfodol am dai a chyflogaeth, tra'n diogelu a gwella ei hasedau amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol. Dylid ystyried yr angen am gartrefi a chyflogaeth ar y cyd i sicrhau patrwm datblygu cynaliadwy.

6.0.4 Felly, dylai'r ffigwr tai ar gyfer y Cynllun adlewyrchu'r angen i gefnogi llafurlu preswyl Gwynedd a'u hannog i barhau i fyw a gweithio yn yr ACLl drwy darpariaeth gwell o dai ac cefnogi cyfleoedd cyflogaeth parhaus. Dylid ystyried sut y gallai'r twf hwn ddarparu tai fforddiadwy yn effeithiol , gan gefnogi yr iaith Gymraeg yn yr ardal ar yr un pryd.

6.0.5 Comisiynwyd *Edge Analytics* i gynhyrchu ystod o senarios twf demograffig ar gyfer ardal ACLl Gwynedd. Mae'r senarios hyn yn seiliedig ar **broffil demograffig yr ardal, tueddiadau'r gorffennol** a gwybodaeth am **adeiladu tai**, ynghyd ag **rhagamcanion poblogaeth** ac **aelwydydd Llywodraeth Cymru** yn 2022 a **rhagolygon cyflogaeth**. Mae'r opsiynau twf a nodir isod wedi deillio o'r gwaith hwn.

6.0.6 **Nid oes unrhyw opsiwn twf unigol yn cael ei ffafrio ar hyn o bryd.** Mae'r ffigurau a gyflwynir yn rhoi arwydd o raddfa twf y bydd angen i'r CDLl fynd i'r afael ag ef mewn 5 gwahanol opsiwn. Ymhellach, dylid nodi bod ystadegau'n cael eu diweddaru'n barhaus a bydd angen i strategaeth y cynllun fod yn ddigon hyblyg i ganiatáu i'r ACLl ymateb i amgylchiadau demograffig newidiol pe bai amcanestyniadau a/neu wybodaeth economaidd newydd ar gael yn ystod cyfnod paratoi'r cynllun.

<u>Darpariaeth Tai Hanesyddol</u>

6.0.7 Nod CDLl ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd oedd darparu **7,184 o unedau tai newydd**. Roedd hyn yn cyfateb i darged o **3,712 o** unedau yn ACLl Gwynedd, sy'n cynrychioli cyfradd o **247** o anheddau y flwyddyn. Y nifer gwirioneddol o dai yn ACLl Gwynedd yn ystod y Cynllun oedd **2805 o** unedau (cyfartaledd o **187** o unedau newydd y flwyddyn). Mae hyn 907 uned yn is na'r targed a nodwyd h.y. roedd y nifer a ddarparwyd yn 24.4% yn is na tharged y Cynllun. Dim ond dwywaith y cyflawnwyd y gofyniad dangosol cyfartalog blynyddol o **247**..

6.0.8 Wrth gymharu taflwybyr tai y CDLl ar y Cyd (a gymhwysir ar gyfer ardal ACLl Gwynedd yn unig), bu diffyg yn y ddarpariaeth dai ar safleoedd a ddyrannwyd yn y CDLl ar y Cyd. Mae 584 yn llai o unedau wedi'u cwblhau ar safleoedd a ddynodwyd yn y Cynllun (-45.0%). O ran safleoedd ar hap, nodir bod 339 yn llai o unedau (-29.0%) wedi'u cwblhau ar safleoedd bach (llai na 5 uned) o gymharu â'r hyn a nodwyd yn y daflwybr, tra bod 16 mwy o unedau (+1.3%) wedi'u cwblhau ar safleoedd ar hap mawr (5 uned neu fwy).

<u>Cyflogaeth</u>

6.0.9 Cafodd Edge Analytics ragolwg cyflogaeth gan *Oxford Economics* (OE). Mae'r rhagolwg hwn yn modelu lefel y cyflogaeth yn y gweithle yng Ngwynedd rhwng 2001-2050. Mae OE wedi darparu rhagolygon ar gyfer swyddi sy'n seiliedig ar y gweithle a phobl sy'n gweithio yn y gweithle.

DRAFT

6.0.10 Yn ogystal â rhagolwg OE Sylfaenol, mae dau senario ychwanegol wedi'u gan ddefnyddio model OE, un yn ystyried y twf tebygol mewn cyflogaeth sy'n deillio o borth rhydd Ynys Môn a'r parth twf Deallusrwydd Artiffisial (Senario A) a datblygiad Adweithyddion Modiwlaidd Bach (SMR) yn Wylfa (Senario B).

6.0.11 Rhwng 2015 a 2025, amrywiodd cyflogaeth yn seiliedig ar bobl yn Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd rhwng 52,000 a 59,000, gan dyfu 8.1% dros y deng mlynedd.

Senarios arfaethedig

6.0.12 Wrth gynllunio ar gyfer anghenion tai a chyflogaeth yn y dyfodol, mae *Edge Analytics* wedi paratoi amrywiaeth o senarios twf demograffig. Mae'r rhain yn seiliedig ar ystod o ganlyniadau posibl o ran twf poblogaeth, aelwydydd, anheddau, y gweithlu a chyflogaeth, ac maent wedi'u rhestru isod.

6.0.13 Mae'r gyfres o senarios demograffig a gyflwynwyd gan Edge *Analytics* yn darparu ystod o ganlyniadau posibl ar gyfer twf poblogaeth (newid naturiol, mudo), aelwydydd, anheddau, y gweithlu a chyflogaeth yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd dros gyfnod y cynllun (2024–2039), yn seiliedig ar ragdybiaethau gwahanol ynghylch mudo, darparu tai a nodweddion y gweithlu. Mae'r senarios i gyd yn seiliedig ar fethodoleg a mewnbynnau adnabuddedig.

Senario	Disgrifiad
Prif Rhagamcanion LlC 2022	Yn dynwared Prif Rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2022
Rhagamcanion Poblogaeth Uwch LlC 2022	Yn dynwared Rhagamcanion Poblogaeth Uwch Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2022
Rhagamcanion Poblogaeth Isel LlC 2022	Yn dynwared Rhagamcanion Poblogaeth Isel Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2022
LlC 2022 mudo10 mlynedd	Yn dynwared yr amrywiad mudo 10 mlynedd sy'n seiliedig ar ffigyrau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022
LlC 2022 mudo15 mlynedd	Yn dynwared yr amrywiad mudo 15 mlynedd sy'n seiliedig ar ffigyrau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022
LlC 2022 mudo Sero	Yn dynwared yr amrywiad mudo sero sy'n seiliedig ar ffigyrau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022
Tuedd 5 mlynedd	Mae'r rhagdybiaethau ynglŷn â mudo wedi'u graddnodi yn seiliedig ar gyfnod hanesyddol o 5 mlynedd (2020/21–2024/25), gan gynnwys yr addasiad UPC yn elfen mudo rhyngwladol yr Amcangyfrif Canol Blwyddyn (MYE) (hyd at 2020/21). Mae gan y senario flwyddyn sylfaen o 2025. Mae'r rhagdybiaethau ynglŷn â ffrwythlondeb a marwoldeb yn deillio o dystiolaeth MYE y 5 mlynedd diwethaf, gyda newidiadau hirdymor yn cael eu tynnu o ragamcaniad Prif Lywodraeth Cymru ar gyfer Gwynedd (sy'n seiliedig ar ddata 2022).
Tuedd 15 mlynedd	Mae'r rhagdybiaethau ynglŷn â mudo wedi'u graddnodi yn seiliedig ar gyfnod hanesyddol o 15 mlynedd (2020/21–2024/25), gan gynnwys yr addasiad UPC yn elfen mudo rhyngwladol yr Amcangyfrif Canol Blwyddyn (MYE) (hyd at 2020/21). Mae gan y senario flwyddyn sylfaen o 2025. Mae'r rhagdybiaethau ynglŷn â ffrwythlondeb a marwoldeb yn deillio o dystiolaeth MYE y 5 mlynedd diwethaf, gyda newidiadau hirdymor yn cael eu tynnu o ragamcaniad Prif Lywodraeth Cymru ar gyfer Gwynedd (sy'n seiliedig ar ddata 2022).

DRAFT

Senario	Disgrifiad
Wedi'i arwain gan dai 5 mlynedd	Modelu effaith twf poblogaeth targed twf anheddau blynyddol cyfartalog o +149 y flwyddyn, yn seiliedig ar hanes pum mlynedd o gwblhau anheddau (2021/22 2025/26). Mae rhagdybiaethau mudo yn cyd-fynd â'r senario Tuedd-15 oed. Mae gan y senario flwyddyn sylfaen o 2025.
Wedi'i arwain gan dai 15 mlynedd	Modelu effaith twf poblogaeth targed twf anheddau blynyddol cyfartalog o +170 y flwyddyn, yn seiliedig ar hanes 15 mlynedd o gwblhau anheddau (2011/12 - 2025/26). Mae rhagdybiaethau mudo yn cyd-fynd â'r senario Tuedd-15 oed
Wedi'i arwain gan Gyflogaeth OE (B)	Modelau effaith twf poblogaeth newid cyflogaeth blynyddol cyfartalog o +311, sy'n deillio o ragolwg Senario B Oxford Economics o gyflogaeth seiliedig ar bobl. Mae rhagdybiaethau ymfudo wedi'u halinio â'r senario Tuedd-15 oed. Mae gan y senario flwyddyn sylfaen o 2025 (h.y. targedau twf cyflogaeth a gymhwysir o 2025 ymlaen). Proffil cymudo yn deillio o'r rhagolwg OE, sy'n modelu gostyngiad yn y cymudo net i Wynedd.

Yr Opsiynau Twf

6.0.14 Mae tablau isod yn rhoi crynodeb o'r opsiynau twf. Ar gyfer pob opsiwn rhoddir ffigwr ar gyfer nifer y cartrefi newydd a'r nifer disgwyliedig o swyddi newydd dros gyfnod CDLl Gwynedd. Ceir mwy o fanylion ar gyfer pob opsiwn isod.

Twf poblogaeth

6.0.15 Mae'r tabl yn rhoi crynodeb o'r twf poblogaeth a'r newid naturiol blynyddol a chanlyniadau mudo net ar gyfer cyfnod y cynllun 2024–2039 ar gyfer yr holl senarios.

Senario	Newid 2024-2039		Cyfartaledd y flwyddyn 2024 - 2039	
	Newid yn y Boblogaeth	Poblogaeth % Newid	Mudo Net	Newid Naturiol
Prif Rhagamcanion LlC 2022	6,104	6.1%	668	-262
Rhagamcanion Poblogaeth Uwch LlC 2022	8,898	8.8%	741	-147
Rhagamcanion Poblogaeth Isel LlC 2022	2,670	2.7%	527	-341
LlC 2022 mudo10 mlynedd	4,819	4.9%	620	-299
LlC 2022 mudo15 mlynedd	3,990	4.1%	576	-310
LlC 2022 mudo Sero	-2,611	-2.7%	0	-232
Tuedd5 mlynedd	4,356	4.3%	617	-327
Tuedd 15 mlynedd	-3,148	-3.1%	159	-369
Wedi'i arwain gan dai 5 mlynedd	2,792	2.8	584	-406
Wedi'i arwain gan dai 15 mlynedd	3,936	3.9%	597	-335
Wedi'i arwain gan Gyflogaeth OE (B)	7929	7.9	825	-296

Twf Aelwydydd

6.0.16 Cyflwynir y newid yn nifer yr aelwydydd dros gyfnod y cynllun (2024-2039), ynghyd â'r twf cyfartalog blynyddol mewn tai yn seiliedig ar y gwahanol senarios, yn y tabl isod.

6.0.17 Wrth ystyried y ffigwr blynyddol ar gyfer tai mae angen ystyried y tai sydd eisoes wedi eu cwblhau yn y cyfnod ers dyddiad sail y Cynllun (2024) ynghyd a'r unedau sy'n debygol o gael eu datblygu sydd yn y banc tir diweddaraf (Ebrill 2026). Mae'r banc tir yn cyfeirio at nifer yr unedau preswyl sydd â chaniatâd cynllunio dilys ond nad ydynt wedi'u cwblhau eto..

6.0.18 Noder bod 330 uned preswyl wedi eu datblygu yn nwy flynedd cyntaf oes y Cynllun ac yn Ebrill 2026 roedd 703 uned yn y banc tir sy'n debygol o gael eu datblygu. Golygai hyn bod yna eisoes ddarpariaeth ar gyfer 1033 o dai a gellir tynnu rhain allan o'r ffigyrau twf dangosol. Gan bod bellach 13 mlynedd ar ôl yn oes y Cynllun, byddai'n rhaid i'r ffigwr twf sydd yn weddill gael ei rannu gyda 13 (yn hytrach na 15) er mwyn cyfleu'r twf tai blynyddol sydd yn weddill.

6.0.19 Mae'r tabl yn nodi'r ffigwr blynyddol ar gyfer tai newydd, gyda ac heb y ffigwr banc tir/unedau eisoes wedi eu datblygu.

Senario	Newid 2024 - 2039		Cyfartaledd Blynyddol Twf Anheddau 2024-2039 *	Cyfanswm Anheddau Newydd dros gyfnod y Cynllun 2024-2039	Cyfanswm Anheddau Newydd dros gyfnod y Cynllun minws unedau sydd wedi eu cwblhau ers 2024 a banc tir 2026 **	Gofyniad anheddau newydd ar gyfartaledd blynyddol
	Newid Aelwydydd	Newid % Aelwydydd				
Prif Rhagamcanion LlC 2022	3,254	7.5%	253	3,795	2,762	212
Rhagamcanion Poblogaeth Uwch LlC 2022	4,185	9.7%	325	4,875	3,842	242
Rhagamcanion Poblogaeth Isel LlC 2022	2,098	4.8%	163	2,445	1,412	109
LlC 2022 mudo10 mlynedd	2,545	6.0%	198	2,970	1,937	149
LlC 2022 mudo15 mlynedd	2,176	5.1%	169	2,535	1,502	116
LlC 2022 mudo Sero	-922	-2.2%	0	0	0	0
Tuedd5 mlynedd	2,622	6.1%	204	3,060	2,027	156
Tuedd 15 mlynedd	-684	-1.6%	0	0	0	0
Wedi'i arwain gan dai 5 mlynedd	1,724	4.0%	134	2,101	1,068	82
Wedi'i arwain gan dai 15 mlynedd	2,185	5.1%	170	2,550	1,517	117
Wedi'i arwain gan Gyflogaeth OE (B)	3,775	8.7%	293	4395	3,362	259

*Mae trosi cartref i annedd wedi'i fodelu gan ddefnyddio 'ffactorau trosi' sy'n deillio o amcangyfrifon stoc aelwydydd ac anheddau Llywodraeth Cymru. Mae ffigur o 14.2% wedi'i gymhwyso neu ACL Gwynedd, wedi'i osod drwy gydol y

cyfnod a ragwelir.
**Banc tir 2026 = 703 o unedau; Unedau wedi eu cwblhau 2024-26 = 330 uned

Twf Cyflogaeth

6.0.20 Cyflwynir y newid yn nifer y swyddi newydd dros gyfnod y cynllun 2024-2039, ynghyd â nifer cyfartalog blynyddol y swyddi yn seiliedig ar y gwahanol senarios yn nhabl isod.

Senario	Newid 2024 - 2039		Twf cyflogaeth cyfartalog blynyddol 2024-2039
	Newid yn y Llafurlu	Newid % Llafurlu	
Prif Rhagamcanion LlC 2022	4,140	8.6%	116
Rhagamcanion Poblogaeth Uwch LlC 2022	4,945	10.3%	171
Rhagamcanion Poblogaeth Isel LlC 2022	3,173	6.6%	50
LlC 2022 mudo10 mlynedd	3,603	7.7%	85
LlC 2022 mudo15 mlynedd	3,273	7.0%	62
LlC 2022 mudo Sero	-633	-1.4%	-204
Tuedd5 mlynedd	4,175	8.7%	119
Tuedd 15 mlynedd	-286	-0.6%	-187
Wedi'i arwain gan dai 5 mlynedd	3,126	6.5%	47
Wedi'i arwain gan dai 15 mlynedd	3,783	7.9%	92
Wedi'i arwain gan Gyflogaeth OE (B)	6,045	12.6%	253

6.0.21 Wrth ystyried y senarios uchod, nodwyd pum opsiwn twf penodol. Yn unol â gofynion y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3), mae'r rhain yn dangos ystod twf posibl yn ACLl Gwynedd yn y dyfodol ar gyfer cyfnod y CDLl yn seiliedig ar y mewnbynnau a'r rhagdybiaethau gwahanol a bennwyd.

6.0.22 Maent yn arddangos lefelau twf uwch (Rhagamcanion Uwch Llywodraeth Cymru 2022 a'r opsiwn Arwain gan Gyflogaeth), lefelau twf is (Rhagamcanion Isel Llywodraeth Cymru 2022 a'r opsiwn sydd wedi'i arwain gan Dai 5 mlynedd), ynghyd ac opsiwn yn y canol sydd yn seiliedig ar Brif Ragamcanion Llywodraeth Cymru 2022. Mae'r opsiynau hyn yn darparu ar gyfer ystod o sefyllfaoedd ac yn rhoi cyfle i ddarparu adborth ynghylch yr opsiwn twf i fodloni'r Weledigaeth a'r Opsiynau Strategol.

6.0.23 Credir ei bod yn hanfodol ystyried y modd mae rhagamcanion Llywodraeth Cymru (o ran ei dri amrywiolyn) yn cael ei gyfleu yn benodol i ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd. Mae hefyd yn synhwyrol i ystyried sut y byddai twf yn cael ei lywio gan y cynnydd a'i ragwelir mewn swyddi dros gyfnod y Cynllun. O safbwynt twf sydd wedi ei arwain gan dai, credir bod ystyried yr hyn sydd wedi digwydd o fewn cyfnod mwy diweddar h.y. cyfnod 5 mlynedd o'i gymharu â cyfnod 15 mlynedd, yn darparu adlewyrchiad teg o'r farchnad dai a tueddiadau datblygu tai yn ardal y Cynllun.

6.1 Opsiwn Twf 1 – yn seiliedig ar brif rhagamcanion 2022 Llywodraeth Cymru

Cynnydd mewn Poblogaeth dros oes y Cynllun	Anheddau Newydd y Flwyddyn	Anheddau Newydd y Flwyddyn ar ôl tynnu'r banc tir	Nifer o Swyddi Newydd y Flwyddyn
6,104	253	212	116

6.1.1 Mae'r opsiwn hwn yn arwain at gynnydd o **6,104** o bobl (+6.1%), **253** o anheddau newydd y flwyddyn (**212** y flwyddyn pan ystyrir yr unedau sydd eisoes wedi eu cwblhau a'r banc tir) a **116** o swyddi newydd y flwyddyn.

6.1.2 Mae'r opsiwn hwn yn seiliedig ar y rhagamcan 'prif' sy'n deillio o ragamcanion poblogaeth ac aelwydydd cenedlaethol swyddogol Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2022. Mae'r prif ragamcan 'canolog' yn seiliedig ar dybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau, mudo a chyfansoddiad aelwydydd, gan ddefnyddio tueddiadau mudo 5 mlynedd (mewnol a rhyngwladol) a thueddiadau ffrwythlondeb a marwolaethau 5 mlynedd.

6.2 Opsiwn Twf 2 - yn seiliedig ar rhagamcanion uwch 2022 Llywodraeth Cymru

Cynnydd mewn Poblogaeth dros oes y Cynllun	Anheddau Newydd y Flwyddyn	Anheddau Newydd y Flwyddyn ar ôl tynnu'r banc tir	Nifer o Swyddi Newydd y Flwyddyn
8,898	325	242	171

6.2.1 Mae'r opsiwn hwn yn arwain at gynnydd o **8,898** yn y boblogaeth (+8.8%), **325** o anheddau newydd y flwyddyn (**242** pan ystyrir yr unedau sydd eisoes wedi eu cwblhau a'r banc tir) a **171** o swyddi newydd y flwyddyn.

6.2.2 Mae'r opsiwn twf hwn yn seiliedig ar y rhagdybiaethau uwch o ran ffrwythlondeb a disgwyliad oes yn rhagolygon swyddogol Llywodraeth Cymru ar gyfer poblogaeth ac aelwydydd cenedlaethol, sy'n seiliedig ar ddata 2022. Mae'r rhagdybiaethau mudo yn cyd-fynd â rhai'r brif ragolwg.

6.3 Opsiwn Twf 3 - Yn seiliedig ar rhagamcanion Poblogaeth Isel 2022 Llywodraeth Cymru

Cynnydd mewn Poblogaeth dros oes y Cynllun	Anheddau Newydd y Flwyddyn	Anheddau Newydd y Flwyddyn ar ôl tynnu'r banc tir	Nifer o Swyddi Newydd y Flwyddyn
2,670	163	109	50

6.3.1 Mae'r opsiwn hwn yn arwain at gynnydd yn y boblogaeth o **2,670** o bobl (+2.7%), **163** o anheddau newydd y flwyddyn (**109** pan ystyrir yr unedau sydd eisoes wedi eu cwblhau a'r banc tir) a **50** o swyddi newydd y flwyddyn.

6.3.2 Mae'r opsiwn twf hwn yn seiliedig ar ragdybiaethau is o ffrwythlondeb a disgwyliad oes rhagamcanion swyddogol Llywodraeth Cymru yn 2022. Mae'r rhagdybiaethau ymfudo wedi'u halinio â rhagdybiaethau y prif amcanestyniad.

6.4 Opsiwn Twf 4 – Wedi'i arwain gan dai 5 mlynedd

Cynnydd mewn Poblogaeth dros oes y Cynllun	Anheddau Newydd y Flwyddyn	Anheddau Newydd y Flwyddyn ar ôl tynnu'r banc tir	Nifer o Swyddi Newydd y Flwyddyn
2,792	134	82	47

6.4.1 Mae'r opsiwn hwn yn arwain at gynnydd yn y boblogaeth o **2,792** o bobl (+2.8%), **134** o anheddau newydd y flwyddyn (**82** pan ystyrir yr unedau sydd eisoes wedi eu cwblhau a'r banc tir) a **47** o swyddi newydd y flwyddyn.

6.4.2 Mae'r opsiwn sy'n cael ei yrru gan nifer yr anheddau yn seiliedig ar barhad o'r cyfraddau hanesyddol o gwblhau tai dros gyfnod o bum mlynedd yng Ngwynedd. Mae twf y boblogaeth yn gysylltiedig yn uniongyrchol â thwf yn nifer y tai (neu'r anheddau). Defnyddir y ffigwr ar gyfer mudo mewnol net i gydbwyso'r ddau ffactor; os nad yw maint a strwythur y boblogaeth breswyl yn ddigonol i 'lenwi'r' anheddau, bydd lefel uwch o fudo net yn digwydd.

6.5 Opsiwn Twf 5 – Wedi'i arwain gan Cyflogaeth

Cynnydd mewn Poblogaeth dros oes y Cynllun	Anheddau Newydd y Flwyddyn	Anheddau Newydd y Flwyddyn ar ôl tynnu'r banc tir	Nifer o Swyddi Newydd y Flwyddyn
7,929	293	259	253

DRAFT

6.5.1 Mae'r opsiwn hwn yn arwain at gynnydd yn y boblogaeth o **7,929** o bobl (+7.9%), **293** o anheddau newydd y flwyddyn (**259** pan ystyrir yr unedau sydd eisoes wedi eu cwblhau a'r banc tir) a **253 o** swyddi newydd y flwyddyn.

6.5.2 Er mwyn llywio'r opsiwn hwn, cafodd Edge Analytics ragolwg cyflogaeth gan Oxford Economics (OE). Mae'r rhagolwg hwn yn modelu lefel y cyflogaeth yn y gweithle yng Ngwynedd o 2001 i 2050.

6.5.3 Yn ogystal â rhagolwg sylfaenol OE, lluniwyd dau senario ychwanegol gan ddefnyddio model OE, gan ystyried y twf tebygol mewn cyflogaeth a fyddai'n deillio o borth rhydd Ynys Môn a'r parth twf deallusrwydd artiffisial (Senario A), yn ogystal â datblygu Adweithyddion Modiwlaidd Bach (SMRs) yn Wylfa (Senario B).

6.5.4 Rhwng 2015 a 2025, amrywiodd nifer y bobl a oedd yn gweithio yn ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) Gwynedd rhwng 52,000 a 59,000, gan dyfu o 8.1% dros y deng mlynedd. Mae'r senario sylfaen yn rhagweld y bydd nifer y bobl sy'n gweithio yn ardal LPA Gwynedd yn tyfu o 4.9% rhwng 2025 a 2050 (2,911 o bobl). Yn Senario A, gan ystyried effaith ychwanegol y Porthladd Rhydd a'r Parth Twf Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn Ynys Môn, y twf dros y 25 mlynedd yw 5.5% (341 o bobl yn fwy na'r senario sylfaen), ac yn Senario B, mae ychwanegu datblygiad y Adweithydd Modiwlaidd Bach (SMR) yn Wylfa yn arwain at dwf o 5.7% (468 o bobl yn fwy na'r senario sylfaen).

6.5.5 Mae'r opsiwn hwn yn defnyddio senario B (sy'n ystyried yr effaith bosibl ar y gweithlu o ddatblygiad yr SMR yn Wylfa) gan ei fod yn adlewyrchu orau strategaeth uchelgeisiol rhaglenni'r Cytundeb Twf a hyrwyddir gan Uchelgais Gogledd Cymru.

DRAFT

7.0 Opsiynau Dosbarthiad Gofodol

7.0.1 Sut dylid dosbarthu'r twf yma? Mae 4 opsiwn strategol ar gyfer dosbarthu datblygiad tai newydd yn cael eu hawgrymu ar gyfer trafodaeth. Cyflwynir tabl ar gyfer pob opsiwn sy'n awgrymu beth allai gwahanol lefelau twf olygu i wahanol fathau o aneddiadau.

7.1 Opsiwn Dosbarthiad 1 - Parhau gyda strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

7.1.1 Mi oedd strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd yn anelu at wasgaru datblygiad yn gymesur o amgylch ardal y Cynllun wrth ganolbwyntio ar y mannau hynny sy'n darparu'r cyfleoedd gorau i gyflawni datblygiad cynaliadwy sef y Ganolfan Isranbarthol, Canolfannau Gwasanaeth Trefol a Lleol. Buasai hyn yn cael ei gyfarch trwy ymrwymiadau a dynodiadau newydd pan fo cyfyngiadau amgylcheddol, cymdeithasol a seilwaith yn caniatáu.

7.1.2 Roedd cyfran uwch o'r datblygiadau newydd, sef 53% o dwf y Cynllun, wedi ei gyfeirio i'r Prif Ganolfannau (Canolfan Isranbarthol a Canolfannau Gwasanaeth Trefol) efo 22% o'r twf yn y Canolfannau Gwasanaeth Lleol. Ar gyfer Pentrefi roedd maint priodol o ddatblygiad yn cael ei hwyluso, gan ganolbwyntio ar Pentrefi Gwasanaeth sydd â gwell mynediad at wasanaethau a chludiant cyhoeddus. Disgwyliwyd rhywfaint o ddatblygu yn y Clystyrau a nodwyd oherwydd eu cysylltiadau swyddogaethol gyda Phentrefi neu Ganolfannau ac yn y cefn gwlad. Roedd disgwyl i 25% o dwf y Cynllun gael ei leoli yn y Pentrefi, Clystyrau a'r Cefn Gwlad.

7.1.3 Mae rhestr o'r aneddiadau a nodir yn y CDLl ar y Cyd i'w gweld yn Atodiad 1. Sylwer y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud ar yr hierarchaeth aneddiadau, a allai arwain at newid i'r rhestr aneddiadau.

Opsiwn Dosbarthiad 1 - Parhau gyda strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

Opsiwn	Nifer o dai y flwyddyn	Nifer o dai y flwyddyn ar ôl tynnu'r banc tir	Prif Ganolfannau (53%)	Canolfannau Gwasanaeth Lleol (22%)	Pentrefi, Clystyrau, a'r Cefn Gwlad (25%)
Opsiwn Twf 1	253	(212)	134 (112)	56 (47)	63 (53)
Opsiwn Twf 2	325	(242)	172 (128)	72 (53)	81(61)
Opsiwn Twf 3	163	(109)	86 (58)	36 (24)	41 (27)
Opsiwn Twf 4	134	(82)	72 (43)	29 (18)	33 (21)
Opsiwn Twf 5	293	(259)	155 (137)	64 (57)	73 (65)

7.2 Opsiwn DOS 2 - Dosbarthiad ar sail unedau wedi ei cwblhau ers 2011

7.2.1 Yr opsiwn yma yn dosbarthu'r twf yn unol efo'r categorïau yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd ond y canran i'r gwahanol haenau h.y. Prif Ganolfannau, Canolfannau Gwasanaeth Lleol a Pentrefi, Clystyrau a Cefn Gwald ar sail y nifer o unedau sydd wedi cael ei gwblhau ynddynt. Yn y cyfnod 2011 i 2024 fe gafodd cyfanswm o 2,475 o unedau preswyl eu cwblhau yn Ardal Cynllunio Gwynedd efo'r dosbarthiad canlynol:

- Prif Ganolfannau 49%
- Canolfannau Gwasanaeth Lleol 22%
- Pentrefi, Clystyrau ar Cefn Gwlad 29%

Opsiwn DOS 2 - Dosbarthiad ar sail unedau wedi ei cwblhau ers 2011					
Opsiwn	**Nifer o dai y flwyddyn**	**Nifer o dai y flwyddyn ar ôl tynnu'r banc tir**	Prif Ganolfannau (49%)	Canolfannau Gwasanaeth Lleol (22%)	Pentrefi, Clystyrau a'r Cefn Gwlad(29%)
Opsiwn Twf 1	253	(212)	124 (104)	56 (47)	73 (61)
Opsiwn Twf 2	325	(242)	159 (119)	72 (53)	94 (70)
Opsiwn Twf 3	163	(109)	80 (53)	36 (24)	47 (32)
Opsiwn Twf 4	134	(82)	66 (40)	29 (18)	39 (24)
Opsiwn Twf 5	293	(259)	144 (127)	64 (57)	85 (75)

7.3 Opsiwn DOS 3 - Ffocws ar Ardal Twf Rhanbarthol

7.3.1 Mae'r opsiwn yma yn seiliedig ar ddosbarthu'r mwyafrif o'r twf i'r Ardal Twf Rhanbarthol sydd wedi cael ei adnabod o fewn Cymru'r Dyfodol. Hyn yn golygu dosbarthu 70% o'r twf i ardal gogleddol y Sir o amgylch Bangor a Caernarfon efo gweddill o'r twf, sef 30%, yn cael ei ddosbarthu i weddill o'r Ardal Cynllunio Gwynedd.

Opsiwn DOS 3 - Opsiwn DOS 3 - Ffocws ar Ardal Twf Rhanbarthol				
Opsiwn	**Nifer o dai y flwyddyn**	**Nifer o dai y flwyddyn ar ôl tynnu'r banc tir**	**Ardal Twf Rhanbarthol (70%)**	**Gweddill ACLl Gwynedd (30%)**
Opsiwn Twf 1	253	(212)	177 (148)	76 (64)
Opsiwn Twf 2	325	(242)	228 (169)	97 (73)
Opsiwn Twf 3	163	(109)	114 (76)	49 (33)
Opsiwn Twf 4	134	(82)	94 (57)	40 (25)
Opsiwn Twf 5	293	(259)	205 (181)	88 (78)

7.4 Opsiwn DOS 4 - Dosbarthu ar sail Nifer o Dai yn ACLl Gwynedd fesul AFTLl

7.4.1 Yn 2021 cytunodd Bwrdd Adfywio Cyngor Gwynedd i ddatblygu Fframwaith Adfywio newydd. Bwriad y Fframwaith yw sicrhau bod camau rhagweithiol yn eu lle er mwyn sicrhau cydweithio i wella'r ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. O fewn yr 13 Ardal Adfywio fe gynhaliwyd trafodaeth gychwynnol gyda chynghorau tref a chymuned ynghyd a mudiadau, grwpiau a chynghorwyr lleol ar syniadau ynglŷn â beth ddylai fod yn flaenoriaethau lleol ar gyfer yr ardal yn y cyfnod hyd at 2035. Defnyddiwyd yr ymatebion yma fel sail ar gyfer yr ail gam o ymgysylltu ehangach gyda'r cyhoedd. Trefnwyd ymgyrch ymgysylltu cyhoeddus er mwyn rhoi cyfle i breswylwyr leisio barn ynglŷn â'r heriau sy'n wynebu eu hardal nhw, yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw a pha ddatblygiadau maen nhw am weld yn eu hardal dros y 10 i 15 mlynedd nesaf. Derbyniwyd cyfanswm o 3,585 o ymatebion drwy holiadur ar-lein a phapur. Yn

DRAFT

dilyn sesiynau cyhoeddus cynhaliwyd gweithdai gyda sefydliadau i drafod cynlluniau gweithredu gan ganolbwyntio ar y materion a blaenoriaethau oedd wedi eu hadnabod yn lleol.

7.4.2 Oherwydd yr ymgysylltu lleol sydd wedi cymryd lle a bod ffiniau'r ardaloedd adfywio yma i'w weld yn debyg i'r dalgylchoedd ysgolion uwchradd **fe gytunwyd i ddefnyddio'r ardaloedd adfywio yma fel sail ar gyfer ardaloedd marchnad tai yn yr Asesiad Marchnad Tai Lleol.** Yr unig newid oedd drwy sicrhau bod pob Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn disgyn o fewn un o'r Ardaloedd Marchnad Tai. Mae hyn yn golygu fod yna 13 Ardal Marchnad Tai o fewn Gwynedd. Gweler y map isod ar gyfer lleoliad yr ardaloedd yma (gweler atodiad 2)

7.4.3 Ar gyfer yr opsiwn yma mae'r lefel twf yn cael ei ddosbarthu ar sail y nifer o dai o fewn y gwahanol Ardaloedd Marchnad Tai mae hyn yn golygu fod y twf yn cael ei ddosbarthu yn fwy cyfartal trwy Ardal y Cynllun fel a amlygir yn y tabl isod:

Ardal Marchnad Tai	**Nifer o Dai (% o'r Cyfanswm yn Ardal Cynllunio Gwynedd)**	**Opsiwn Twf 1** **253 tai y flwyddyn (212 ar ôl tynnu'r banc tir/ datblygiadau)**	**Opsiwn Twf 2** **325 tai y flwyddyn (242 ar ôl tynnu'r banc tir / datblygiadau)**	**Opsiwn Twf 3** **163 tai y flwyddyn (109 ar ôl tynnu'r banc tir / datblygiadau)**	**Opsiwn Twf 4** **134 tai y flwyddyn (82 ar ôl tynnu'r banc tir / datblygiadau)**	**Opsiwn Twf 5** **293 tai y flwyddyn (259 ar ôl tynnu'r banc tir / datblygiadau)**
Ardal Pen Llyn	5646 (11%)	28 (23)	36 (27)	18 (12)	15 (9)	32 (29)
Ardal Porthmadog	4957 (9.7%)	25 (21)	31 (23)	16 (11)	13 (8)	28 (25)
Bro Ardudwy	1418 (2.8%)	7 (6)	9 (7)	5 (3)	4 (2)	8 (7)
Bro Dysynni	2376 (4.7%)	12 (10)	15 (11)	8 (5)	6 (4)	14 (12)
Bro Ffestiniog	2239 (4.4%)	11 (9)	14 (11)	7 (5)	6 (3)	12 (11)
Bro Lleu/Nantlle	4739 (9.3%)	23 (20)	30 (23)	15 (10)	12 (8)	27 (24)
Bro Ogwen	3856 (7.5%)	19 (16)	24 (18)	12 (8)	10 (6)	22 (19)
Bro Peris	5364 (10.5%)	27 (22)	34 (25)	17 (11)	14 (9)	31 (27)
Dalgylch Bala	506 (1%)	3 (2)	3 (2)	2 (1)	1 (1)	3 (3)
Dalgylch Bangor	8792 (17.2%)	43 (37)	60 (42)	28 (19)	23 (14)	50 (45)
Dalgylch Caernarfon	5343 (10.4%)	26 (22)	34 (25)	17 (11)	14 (8)	30 (27)
Dalgylch Dolgellau	349 (0.7%)	2 (1)	2 (2)	1 (1)	1 (1)	2 (2)
Dalgylch Pwllheli	5508 (10.8%)	27 (23)	35 (26)	18 (12)	14 (9)	32 (28)


DRAFT

Atodiad 1: Rhestr o Aneddleoedd y CDLl ar y Cyd

Canolfan Is-Ranbarthol	Bangor
Canolfannau Gwasanaeth Trefol	Blaenau Ffestiniog, Caernarfon, Porthmadog, Pwllheli
Canolfannau Gwasanaeth Lleol	Abermaw, Bethesda, Criccieth, Llanberis, Llanrug, Nefyn, Penrhyndeudraeth, Penygroes, Tywyn
Pentrefi Gwasanaeth	Bethel, Bontnewydd, Botwnnog, Chwilog, Deiniolen, Rachub, Tremadog, Y Ffôr
Pentrefi Lleol, Gwledig ac Arfordirol	Abererch, Brynrefail, Caeathro, Carmel, Cwm y Glo, Dinas (Llanwnda), Dinas Dinlle, Dolydd a Maen Coch, Efailnewydd, Garndolbenmaen, Garreg-Llanfrothen, Groeslon, Llandwrog, Llandygai, Llangybi, Llanllyfni, Llanystumdwy, Nantlle, Penisarwaun, Pentref Uchaf, Rhiwlas, Rhosgadfan, Rhostryfan, Sarn Mellteyrn, Talysarn, Tregarth, Trefor, Waunfawr, Y Fron
Clystyrau	Aberdesach, Aberllefenni, Aberpwll, Bethesda Bach, Bryncir, Bryncroes, Caerhun/Waen Wen, Capel y Graig, Corris Uchaf, Crawia, Dinorwig, Gallt y Foel, Glasinfryn, Groeslon Waunfawr, Llanaber, Llandderfel, Llanengan, Llanfor, Llanllechid, Llannor, Llanwnda, Llwyn Hudol, Minffordd, Minffordd (Bangor), Mynydd Llandygai, Nebo, Pantglas, Penmorfa, Penrhos, Penrhos (Caeathro), Pentir, Pentrefelin, Pistyll, Pontllyfni, Rhoslan, Saron (Llanwnda), Swan, Tai'n Lôn, Talwaenydd, Talybont, Tan y Coed, Treborth, Ty'n-lôn, Ty'n y Lôn, Waun (Penisarwaun).

DRAFT

Atodiad 2: Map Ardaloedd Marchnad Tai Lleol



DRAFFT